Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | Dydd Llun, 2 Mehefin 2014 |
| | | Rhif Union: | 01824712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 10 MEHEFIN 2014** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 13 Mai 2014 (copi ynghlwm).

**6 PROSIECT CYNHWYSIANT ARIANNOL GYDA'N GILYDD** (Tudalennau 17 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Prosiect, Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd, (copi ynghlwm) i roi gwybodaeth i Aelodau o'r Cyngor ynglŷn â phrosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd.

**7 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU** (Tudalennau 31 - 64)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (copi'n amgaeedig) i ddarparu gwybodaeth i Aelodau am Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor.

**8 POLISI PENSIWN LLYWODRAETH LEOL** (Tudalennau 65 - 82)

Ystyried adroddiad gan yr Arbenigwr Cyflogau a Gwobrwyo (copi'n ynghlwm) er mwyn i'r Cyngor llawn allu mabwysiadu Polisi Disgresiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**9 PENODIADAU PWYLLGOR A CHYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** (Tudalennau 83 - 90)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) er mwyn i'r Cyngor Llawn allu penodi Cadeirydd a deg o aelodau eraill i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2014/2015. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar sefyllfa'r Pwyllgorau eraill er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am y camau sydd eu hangen eu cymryd i gynnal cydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgorau.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 91 - 94)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Brian Blakeley (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd) |
| Ian Armstrong | Geraint Lloyd-Williams |
| Raymond Bartley | Margaret McCarroll |

Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman**

**26.04.14 - 27.05.14**

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event | Lleoliad / Location |
|---|---|---|
| 26.04.14 | Cinio Elusennol Maer Prestatyn<br>Mayor of Prestatyn Charity Dinner<br>Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chair attended | Prestatyn |
| 28.04.14 | Penblwydd Mrs Gaynor Williams yn 100 oed<br>Mrs Gaynor Wiliiams 100th birthday | Dinbych<br>Denbigh |
| 30.04.14 | Cyngerdd Blynyddol<br>Gwasanaeth Ysgolion William Mathias<br>Annual Concert | Llanelwy<br><br>St Asaph |
| 01.05.14 | Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru<br>Launch Welsh Public Library Standards<br>(trefnwyd gan/organised by CYMAL) | Prestatyn |
| 01.05.14 | Lansiad 'Pro Kite Surfing' Event<br>Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chair attended | Y RhylRhyl |
| 02.05.14 | Cyfarfod Blynyddol a Sefydlu Maer Newydd<br>Annual General Meeting and<br>Installation of New Mayor | Dinbych<br>Denbigh |
| 08.05.14 | Cyfarfod Blynyddol a Sefydlu Maer Newydd<br>Annual General Meeting and<br>Installation of New Mayor | Abergele |
| | **Cadeirydd Newydd / New Chairman** | |
| 15.05.14 | Seremoni Dinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony | Rhuthun<br>Ruthin |
| 15.05.14 | Seremoni Wobrwyo 'British Empire Medal' Presentation Ceremony | Bodelwyddan |
| 16.05.14 | Cinio Elusennol Maer Y Rhyl<br>Mayor of Rhyl's Charity Dinner | Y Rhyl/Rhyl |
| 19.05.14 | Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun<br>Ruthin Town Council AGM | Rhuthun/Ruthin |
| 22.05.14 | Ymweliad Cynghorau Ysgolion i'r Siambr<br>School Councils Visit to Chamber | Rhuthun/Ruthin |
| 30.05.14 | Digwyddiad Gyfnewid Pastwn y Frenhines<br>Queen's Baton Relay Event | Llandegla |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 13 Mai 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM) Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

**Hefyd yn bresennol:**
Yr Uwch-arolygydd Alex Goss, Heddlu Gogledd Cymru
Paul Shea, Rheolwr Canolfan Alwadau Heddlu Gogledd Cymru

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Geraint Lloyd-Williams a Huw Williams

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd oddi wrth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw un gysylltiad.

## 3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD: DATGANIAD DULYN

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Cyngor llawn am Ddatganiad Dulyn a oedd wedi cael ei gymeradwyo a'i dderbyn yn y Cabinet ar 29 Ebrill 2014. Byddai'r Datganiad yn cael ei lofnodi gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Hugh Evans, yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd Bobby Feeley a Chadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Raymond Bartley.

Drwy lofnodi'r ddogfen, roedd Cyngor Sir Ddinbych yn addo mynd rhagddo â gwaith a oedd yn seiliedig ar egwyddorion Sefydliad Iechyd y Byd a'r Cenhedloedd Unedig i wneud ei gymunedau'n fwy cyfeillgar i oed.

Roedd yr addewid, a elwir yn Ddatganiad Dulyn gan fod arlywyddiaeth yr UE o dan law Iwerddon, yn tynnu sylw at yr angen i greu lleoedd sy'n gyfeillgar i oed, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo ymwybyddiaeth o bobl hŷn, eu hawliau, eu hanghenion a'u potensial, yn ogystal â'u cyfraniad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cadarnhaol.

Eglurodd y Cynghorydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant, a hefyd yr Eiriolwr dros Bobl Hŷn wrth Aelodau'r Cyngor fod pobl yn byw yn hirach yn y gymuned, a bod angen ymateb i hynny mewn modd cadarnhaol. Roedd yn golygu galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, yn ogystal â dathlu a gwrando ar safbwyntiau'r boblogaeth sy'n heneiddio ynglŷn â'r mathau o gyfleoedd y dylid ymchwilio iddynt i'w cadw'n heini ac yn brysur, a chymryd rhan ym mywyd y gymuned leol.

Wrth i nifer y bobl sy'n byw'n hirach gynyddu, byddai'n bwysig i'r cyngor ystyried dulliau o addasu amgylcheddau ac adeiladau er mwyn adlewyrchu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Ar y pwynt hwn, llofnododd y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley a Raymond Bartley y Datganiad.

## 4 CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Rhoddodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Raymond Bartley, anerchiad a oedd yn cynnwys myfyrdod ar ei gyfnod fel Cadeirydd a chyfeiriadau at sawl digwyddiad lle bu'n bresennol dros y deuddeg mis diwethaf.

Roedd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol a'i gydymaith, ei wraig Dorothy, wedi cael blwyddyn brysur iawn yn ymweld â thros 200 o ddigwyddiadau. Y digwyddiad mwyaf cofiadwy oedd Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, fu'n llwyddiant ysgubol. Roedd y Cynghorydd Bartley a'i wraig wedi bod i'r Eisteddfod bob dydd ac roedd cannoedd o bobl wedi dod atynt i'w llongyfarch am lwyddiant yr Eisteddfod, neu'n canmol y Sir am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r digwyddiad. Mynegodd y Cynghorydd Bartley ddiolch i bob un aelod o staff fu'n ymwneud ag unrhyw un o'r trefniadau, o'r uwch reolwyr hyd at y rhai a chwaraeodd eu rhan arbennig ac amhrisiadwy eu hunain yn y llwyddiant. Bu'n enghraifft wych o waith tîm a oedd wedi rhoi Sir Ddinbych ar y map mewn modd ffafriol, a byddai hynny'n destun balchder arbennig i'r Cynghorydd Bartley hyd weddill ei oes.

Bu hefyd yn anrhydedd arbennig gallu cynnig £2,000 o nawdd i Ŵyl Gerdd Gogledd Cymru yn Llanelwy. Defnyddiwyd yr arian hwn i ddarparu gweithdy cerddorol i ddisgyblion yn ysgolion arbennig y sir. Byddai peth o'r nawdd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludiant ysgol, er mwyn galluogi disgyblion o sawl ysgol i ddod i amrywiaeth o weithdai a oedd wedi'u trefnu ar eu cyfer.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau eraill:

- Cystadleuaeth barddoniaeth a baner Dydd Gŵyl Dewi ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cynradd Sir Ddinbych. Bu'r digwyddiad hwn mor llwyddiannus, byddai'n cael ei gynnal bob blwyddyn o hyn allan.
- Ymweliadau gan ysgolion â Siambr y Cyngor
- Cyngherddau Ysgolion Sir Ddinbych
- Bod yn bresennol ym mhenblwyddi dinasyddion Sir Ddinbych yn 100 oed

Mynegwyd diolch i bawb a oedd wedi cefnogi neu ddod i'r digwyddiadau a gynhaliwyd i godi arian er budd dwy elusen y Cynghorydd Bartley.

Mynegodd y Cynghorydd Bartley hefyd ddiolch i staff y Gwasanaethau democrataidd a oedd wedi cynnal digwyddiadau er mwyn codi arian i elusen Tŷ Gobaith, a llwyddwyd i godi £1,724.00 a anfonwyd ymlaen i'r elusen. Mynegodd y Cynghorydd Bartley ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i feddwl am eraill, a dywedodd ei fod yn ymfalchïo yng ngwaith ei staff.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bartley sieciau am yr arian a godwyd yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd (cyfanswm o £4,000) i'r elusennau a ddewiswyd ganddo:

(i) Derbyniodd Eluned Yaxley, Rheolwr Codi Arian, y siec am £2,000 ar ran hosbis Tŷ Gobaith
(ii) Derbyniodd Ian Bellingham, Prif Weithredwr, y siec am £2,000 ar ran Hosbis Sant Cyndeyrn, Llanelwy

Yna, aeth y Cynghorydd Bartley yn ei flaen i gyflwyno anrhegion i'w Gaplan, y Parchedig Wayne Roberts, ei Gydymaith, Rheolwr Cefnogi a Datblygu'r Aelodau, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Cefnogi'r Aelodau, Cydgysylltydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd, Gweinyddwyr Pwyllgorau a'r Cydgysylltydd Craffu er mwyn cydnabod eu cefnogaeth dros y deuddeg mis diwethaf.

Mynegodd y Cynghorydd Bartley ddiolch arbennig i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diolchodd hefyd i Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Hugh Evans, am ei gyngor, ac am rannu ei wybodaeth a'i brofiad.

Yn olaf, mynegodd y Cynghorydd Bartley ddiolch i'w wraig, Dorothy, am ei chefnogaeth ddiwyro a'i gwasanaeth ymroddedig i Gyngor Sir Ddinbych ar hyd y blynyddoedd.

Wedyn, gwahoddodd y Cynghorydd Bartley enwebiadau er mwyn penodi Cadeirydd newydd y Cyngor Sir ar gyfer 2014/15. Cynigiodd Joan Butterfield y dylid ethol y Cynghorydd Brian Blakeley yn Gadeirydd, gan amlinellu'r rhinweddau personol a'r profiad y byddai'n eu cynnig i'r swydd.

Eiliodd y Cynghorydd Cefyn Williams y cynnig, gan ychwanegu y byddai'r Cynghorydd Blakeley yn Llysgennad gwych i Gyngor Sir Ddinbych

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, ac ar ôl pleidlais drwy godi llaw, cafwyd penderfyniad unfryd i ethol y Cynghorydd Brian Blakeley yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn 2014/15 y Cyngor.

Dymunodd y Cynghorydd Bartley yn dda i'r Cadeirydd nesaf, a'i wisgo â Chadwyn Swydd y Cadeirydd. Ar ôl hynny, cwblhaodd y Cadeirydd newydd ei Ddatganiad Derbyn Swydd. Gwisgodd Cydymaith y Cadeirydd a oedd yn ymddeol Gydymaith y Cadeirydd â Chadwyn y Swydd.

Talodd y Cadeirydd newydd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y Cynghorydd oedd yn ymddeol a chyflwyno Bathodyn Cyn-gadeirydd, plac a rhodd iddo ar ran y Cyngor.

Enwodd y Cadeirydd newydd ei ferch, Michelle Blakeley, yn gydymaith a'r Parchedig Andy Grimwood yn Gaplan iddo ar gyfer y flwyddyn, a dywedodd mai'r ddwy elusen yr oedd wedi'u dewis oedd Hosbis Tŷ Gobaith a Bad Achub y Rhyl.

**5 IS-GADEIRYDD Y CYNGOR**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd.

Cynigiodd Eryl Williams y dylid ethol y Cynghorydd Gwyneth Kensler yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn 2014/15 y Cyngor. Cyfeiriodd at brofiad helaeth y Cynghorydd Kensler a'i hymroddiad i'r sir.

Eiliodd Hugh Evans yr enwebiad gan gyfeirio at waith diflino'r Cynghorydd Kensler er budd y gymuned.

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais drwy godi llaw, cafwyd penderfyniad unfryd i ethol y Cynghorydd Gwyneth Kensler yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn 2014/15 y Cyngor.

Gwisgodd y Cadeirydd y Cynghorydd Kensler â Chadwyn Swydd yr Is-gadeirydd, wedyn cwblhaodd hithau ei Datganiad Derbyn Swydd.

Dywedwyd mai cydymaith yr Is-gadeirydd newydd fyddai Gaynor Morgan Rees, nad oedd, yn anffodus, wedi gallu dod i gyfarfod llawn y Cyngor oherwydd ymrwymiadau blaenorol.

Talodd Arweinwyr y Grwpiau deyrnged i waith y Cadeirydd a oedd yn ymddeol dros y deuddeg mis diwethaf, a llongyfarch y Cynghorydd Brian Blakeley ar gael ei ethol yn Gadeirydd a Gwyneth Kensler ar gael ei hethol yn Is-gadeirydd.

## 6 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

## 7 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Ebrill, 2014.

Dywedodd Joe Welch nad oedd ei bresenoldeb yng nghyfarfod 8 Ebrill 2014 wedi'i nodi ar y cofnodion.

Mewn perthynas ag eitem 9, Y Cynllun Cyfalaf, dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ei fod wedi cyfeirio at gaffael, ac nad oedd hynny wedi'i nodi ar y cofnodion.

Mewn perthynas ag eitem 11, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei fod wedi gofyn am welliant ac nad oedd wedi mynegi gwrthwynebiad.

Materion yn Codi - Mewn perthynas ag eitem 9, Y Cynllun Cyfalaf, holodd y Cynghorydd Rhys Hughes a oedd Polisi Amgylcheddol bellach wedi'i lunio. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai'n cadarnhau hyn ac yn adrodd yn ôl wrth yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2014, yn gywir.*

## 8 HEDDLU GOGLEDD CYMRU - CANOLFAN GYFATHREBU’R HEDDLU

Ar ran Heddlu Gogledd Cymru, cymeradwyodd yr Uwch-arolygydd Alex Goss y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gael eu penodi, a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y 12 mis nesaf.

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Alex Goss, Pennaeth y Gyd-ganolfan Gyfathrebu, Llanelwy, Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd â Paul Shea, Rheolwr Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH) gyflwyniad er mwyn cynyddu gwybodaeth yr Aelodau am swyddogaeth a hygyrchedd Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH), a hefyd i gyfeirio at y galwadau a gafwyd, gan gynnwys galwadau 999 amhriodol.

Aeth Paul Shea drwy'r cyflwyniad. Roed y cyflwyniad yn trafod:

- Nifer y galwadau a dderbyniwyd
- Y dull o drin galwadau
- Rhifau cyswllt a ffyrdd eraill o gysylltu
- Beth fyddai’n digwydd wrth dderbyn galwad
- Sut i reoli digwyddiad difrifol
- Galwadau 999 amhriodol

Cafwyd trafodaeth, a gofynnodd yr aelodau gwestiynau. Trafodwyd y materion canlynol:

- Yr hyfforddiant a gaiff staff cyn dechrau eu swydd, ynghyd â hyfforddiant parhaus
- Y gosb am wneud defnydd amhriodol o 999 ac am wastraffu amser yr Heddlu. Roedd gan Heddlu Gogledd ddyletswydd gofal i bawb yng Ngogledd Cymru, ac roedd angen cadw'r llinellau ffôn 999 ar gyfer galwadau brys hanfodol.
- Byddai unrhyw gymorth posib gan gynghorwyr a chymunedau i gael gwared â'r galwadau ffôn 999 amhriodol yn cael ei groesawu.
- Gwybodaeth ddilynol ar ôl riportio trosedd. Roedd opsiynau'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd, ac un o'r datrysiadau posib oedd "olrhain fy nhrosedd", a fyddai ar gael ar y rhyngrwyd.
- Cau ffyrdd o ganlyniad i ddamweiniau. Roedd y penderfyniad i gau ffordd ai peidio yn dibynnu ar ba mor ddifrifol oedd y ddamwain. Byddai'r Heddlu'n osgoi cau ffyrdd onid oedd gwir angen gwneud hynny. O benderfynu cau ffordd, byddai Heddlu Gogledd Cymru wedyn yn cysylltu ag Adran Briffyrdd yr awdurdod lleol i weithredu'r penderfyniad hwnnw.
- Roedd gwybodaeth leol gan staff wedi'i chynnwys yn y broses recriwtio. Roedd hi'n bryd uwchraddio'r systemau teleffoni i system ffôn seiliedig ar sgiliau. Crybwyllwyd hefyd y byddai timau'n cael eu rhannu yn y dyfodol er mwyn gwella gwybodaeth leol
- Cafwyd cynnydd yn nifer y galwadau iechyd meddwl ac roedd hynny wedi achosi problemau. Canlyniad y galwadau yn aml fyddai anfon swyddog allan. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd Goss nad mater i'r Heddlu oedd problemau iechyd meddwl, ac nad y ddalfa oedd y lle priodol i rywun â phroblemau iechyd meddwl. Pobl broffesiynol ddylai fod yn delio â'r achosion hyn, nid Heddlu Gogledd Cymru.

Os oedd yr aelodau’n dymuno ymweld â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, dywedodd yr Uwch-arolygydd Goss y dylent gysylltu ag ef ac y byddai'n trefnu'r ymweliad.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r aelodau nodi ac ystyried y cyflwyniad, a chysylltu â'r Uwch-arolygydd Alex Goss os oeddent yn dymuno ymweld â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu.*

**Yn y fan hon (11.50am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuwyd y cyfarfod am 12.10pm**

## 9 DOGFEN GYFLENWI FLYNYDDOL AR GYFER Y CYNLLUN CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Barbara Smith ac Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Hugh Evans, adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i hysbysu'r Aelodau am Ddogfen Gyflenwi Blwyddyn 3 (2014/15) ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2012/17 a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol yr Aelodau Cabinet i'w cyflawni erbyn 2017.

Roedd angen penderfynu cymeradwyo fersiwn ddrafft derfynol Dogfen Gyflenwi Blwyddyn 3 y Cynllun Corfforaethol. Roedd Dogfen Gyflenwi wedi cael ei llunio ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Pwrpas y Ddogfen Gyflenwi oedd amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fyddai'n cael eu dechrau ac/neu eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob blaenoriaeth, gyda'r bwriad o ddangos sut oedd y Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni.

Mewn perthynas â blaenoriaethau Aelodau'r Cabinet ar gyfer 2017, gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r Dulliau o Fesur Llwyddiant a bennwyd gan Aelodau'r Cabinet yn eu portffolios er mwyn cyflawni yn erbyn holl flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

Cafwyd trafodaeth, a gofynnodd yr aelodau gwestiynau. Codwyd y materion canlynol:

- Roedd y ddogfen yn cynnwys llawer o fyrfoddau. Byddai'r ddogfen yn cael ei hail-lunio i fod yn haws ei darllen a byddai'r swyddogion yn sicrhau bod yr wybodaeth wedi'i chyfleu'n glir.
- Sicrhau gostyngiad o 20% i amser teithio staff. Byddai gweithio symudol, gan gynnwys Skype a mynediad o bell, yn lleihau'r amser y byddai'n rhaid i'r staff ei dreulio'n teithio.
- Dewis rhieni o ran ysgol a ffafrir. Roedd yna ddogfen meini prawf cymhwysedd ar gyfer pob ymgeisydd y byddai'n ofynnol i bob rhiant ei llofnodi Pe bai'r rhieni'n dewis peidio anfon eu plentyn i'r ysgol agosaf at eu cartref, byddai'n ofynnol iddynt dalu i ddarparu cludiant i'r ysgol.
- Arolwg Preswylwyr. Cafwyd cadarnhad bod yr arolwg preswylwyr, yn y gorffennol, wedi cael ei rannu ar hap ymhlith preswylwyr gan gwmni proffesiynol ar ran Cyngor Sir Ddinbych. Yn 2014, roedd yr arolwg preswylwyr wedi cael ei gynnal yn fewnol.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cefyn Williams at safon y ffyrdd yn Sir Ddinbych. Dywedodd y Cynghorydd Williams fod safon gwaith cynnal y ffyrdd wedi dirywio, ac y gallai felly achosi damwain ddifrifol yn y dyfodol. Roedd safon y gwaith a gwblhawyd ar y priffyrdd yn wael iawn gan y byddai tyllau'n ymddangos unwaith eto cyn pen deunaw mis ar ôl y gwaith trwsio. Roedd y ffaith nad oedd digon o gyllid ar gael i gwblhau gwaith ar yr holl ffyrdd yr oedd angen eu gwella o fewn y sir wedi'i gadarnhau. Roedd cyllideb wedi'i neilltuo bob blwyddyn ar gyfer gwelliannau priffyrdd. Cyflwynwyd y cynlluniau gwella ffyrdd yng nghyfarfodydd Grŵp Ardal yr Aelodau i'w cymeradwyo neu eu diwygio. Dywedodd y Cynghorydd David Smith, os oedd yr aelodau'n gwybod am unrhyw ffyrdd mewn cyflwr gwirioneddol ddrwg, y dylent gysylltu ag ef ac y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth i'r Adran Briffyrdd. Argymhellodd y Cynghorydd Hugh Evans y dylid trafod cyflwr gwael priffyrdd y sir mewn Pwyllgor Archwilio, er mwyn cynnal trafodaeth fanylach ar hynny.
- Gwella amodau byw yn nhai'r sector preifat. Bwriedir addasu 320 o anheddau mewn meddiant preifat er mwyn galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield wedi gofyn am ddadansoddiad o'r wybodaeth ynghylch pwy fyddai'n derbyn y cyllid o fewn y sector preifat.

***PENDERFYNWYD**:*

*(i) Yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunir, y dylai'r Aelodau gymeradwyo drafft terfynol y ddogfen Gyflenwi fel bo modd ei chyfieithu a'i chyhoeddi.*
*(ii) Y dylai'r Cyngor nodi cynnwys Atodiad 2 mewn perthynas â phortffolio pob Aelod Cabinet.*

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU ARCHWILIO'R CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor (a gylchredwyd yn flaenorol) i'w ystyried gan yr Aelodau.

I gydymffurfio ag Erthygl 6.3.7 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, rhaid i Bwyllgorau Archwilio roi adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn ar eu gwaith, a gwneud argymhellion ynghylch rhaglenni gwaith i'r dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yw'n briodol.

Ar ôl trafodaeth hir, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd presenoldeb aelodau Archwilio mewn Grwpiau Herio Gwasanaethau ac ar gyrff eraill allanol yn hynod bwysig, ac anogwyd aelodau Archwilio i fod yn bresennol. Os nad oedd aelodau Archwilio yn gallu bod yn bresennol am unrhyw reswm, gofynnwyd iddynt anfon aelod arall yn eu lle os oedd modd.
- Mae Aelodau Arweiniol y Cabinet bellach yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio, sydd o gymorth mawr i'r Aelodau Archwilio.
- Roedd eitem sefydlog wedi'i chynnwys ar Raglen y Cabinet i drafod eitemau wedi'u cyfeirio o'r Pwyllgorau Archwilio.
- Pe bai cais yn dod i law i ychwanegu eitem at raglen cyfarfod Pwyllgor Archwilio, byddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio a fyddai wedyn yn penderfynu pa Bwyllgor Archwilio fyddai'n briodol i drafod y mater. Fel arall, byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio weithiau'n penderfynu nad oedd y mater yn briodol i'w ystyried gan Bwyllgor Archwilio.

Mynegodd y Cynghorydd Joan Butterfield ddiolch i Grŵp y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio ac i'r swyddogion cefnogi am lunio adroddiad mor fanwl a chlir.

***PENDERFYNWYD** y dylai'r Cyngor dderbyn Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor 2013/14*

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Raglen Gwaith y Cyngor i'r Dyfodol (a gylchredwyd yn flaenorol).

Cyfeiriodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau at ddyddiadau'r gweithdai a oedd i ddod ar y Gyllideb, a drefnwyd ar gyfer mis Gorffennaf 2014.

Dyma'r dyddiadau:

- 9 Gorffennaf 2014 (drwy'r dydd)
- 14 Gorffennaf 2014 (drwy'r dydd)
- 30 Gorffennaf 2014 (hanner diwrnod – sesiwn y prynhawn)

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith y Cyngor i'r Dyfodol.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Cyngor Llawn**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **10 Mehefin 2014**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Huw Irving, Aelod Arweiniol**

**Awdur yr Adroddiad:** **Sarah Lamberton, Rheolwr Prosiect, Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd**

**Teitl: Gwneud cynhwysiant ariannol yn berthnasol bawb - cyflwyniad i Brosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd yn Brosiect gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych a gaiff ei ariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r prosiect ac yn archwilio sut y gall Cynghorwyr gael budd o gymryd rhan yn y prosiect.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am y prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd ac annog aelodau'r Cyngor i gymryd rhan yn un o'i sesiynau codi ymwybyddiaeth o gynhwysiant ariannol, fel eu bod yn eu tro yn gallu rhoi mwy o gymorth i etholwyr lleol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Cefnogir y Prosiect hwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn ceisio mynd i'r afael â thlodi drwy ddatblygu, cydlynu a hybu gwasanaethau cynhwysiant ariannol o fewn sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych.

**Beth yw cynhwysiant ariannol?**
Mae'n ymwneud â sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gael y cyngor, y gwasanaethau a'r nwyddau ariannol y mae eu hangen i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi 5 thema allweddol:

- Mynediad i wasanaethau ariannol prif ffrwd
- Gallu ariannol (gan gynnwys cynhwysiad digidol)
- Cyngor o fewn cyrraedd am arian a dyledion
- Cynyddu incwm (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni)
- Mynediad i gredyd a benthyciadau fforddiadwy

**Amcanion y Prosiect**

- Gwella'r cyd-drefnu a chydweithio strategol o ran gwasanaethau ar draws Conwy a Sir Ddinbych i sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei integreiddio a'i ymgorffori yn y dull arferol o gyflwyno gwasanaethau gan sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Gwella mynediad i wasanaethau gwybodaeth a chyngor o safon am gynhwysiant ariannol a fydd yn sicrhau bod pobl yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn cael eu grymuso i reoli dyfodol economaidd heriol.

**Beth mae'r prosiect yn ei wneud**
Un o amcanion allweddol y prosiect yw darparu o leiaf 1000 o weithwyr rheng flaen mewn sefydliadau partner y BGLl â'r wybodaeth a'r adnoddau cynhwysiant ariannol angenrheidiol i rymuso pobl y maent yn dod i gysylltiad â nhw i gael eu cynnwys yn ariannol.

Er mwyn gwneud hyn, mae prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd yn cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth i unrhyw un sy'n gweithio yn y rheng flaen a allai helpu i ddarparu gwybodaeth am gynhwysiant ariannol, neu wneud atgyfeiriadau o safon ar gyfer cyngor manwl yn ymwneud â chynhwysiant ariannol.

Mae'r prosiect hefyd yn adeiladu etifeddiaeth o gamau gweithredu o fewn sefydliadau partner BGLl a fydd yn parhau i ymgorffori arfer cynhwysiant ariannol pan fydd y prosiect wedi dod i ben (ym mis Rhagfyr 2014).

**Sut y gall Cynghorwyr elwa o gymryd rhan yn y prosiect a mynychu un o'r sesiynau codi ymwybyddiaeth?**

- Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r canlyniadau dysgu ac amcanion y gall cyfranogwyr ddisgwyl eu cyflawni o fynychu sesiwn codi ymwybyddiaeth.
- Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion am ddyddiadau sesiynau sydd ar gael a sut i archebu lle.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae hwn yn brosiect ataliol sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi yn y gymuned; mae'n helpu staff rheng flaen i helpu pobl i reoli yn well mewn hinsawdd economaidd heriol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gan fod y prosiect yn cael ei ariannu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, nid oes unrhyw gost i'r Cyngor.

## 7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer sesiynau codi ymwybyddiaeth y prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd ynghlwm fel Atodiad 3. Nid oes unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud yn yr adroddiad hwn sy'n gofyn am gasgliadau o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Dim angen.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

*Dim angen.*

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Dim angen penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd

## Amlinelliad o'r Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth

| Canlyniadau Dysgu | Amcanion Dysgu - Bydd y dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| • Ddeall beth yw cynhwysiant ariannol a'r effaith y mae'n ei gael ar unigolion | • Disgrifio beth yw cynhwysiant ariannol<br>• Nodi trigolion sydd yn / neu mewn perygl o brofi materion yn ymwneud â thlodi a chynhwysiant ariannol<br>• Disgrifio bendithion cynhwysiant ariannol a rhwystrau posibl<br>• Nodi materion lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar gynhwysiant ariannol pobl |
| • Deall eu rôl wrth ddelio â chynhwysiant ariannol | • Nodi'r gwahanol lefelau o gyngor ac arweiniad<br>• Cydnabod hyd a lled a therfynau lefel y gefnogaeth y gallant ei gynnig a phryd mae angen iddynt atgyfeirio<br>• Cydnabod effaith posibl mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol ar eu gwasanaeth / swyddogaeth |
| • Gwybod pan fo rhywun angen cymorth efo materion cynhwysiant ariannol | • Disgrifio sut y byddent yn nodi bod mater cynhwysiant ariannol yn bodoli<br>• Dangos dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen i drafod materion cynhwysiant ariannol yn sensitif<br>• Arddangos sgiliau cwestiynu a gwrando priodol |
| • Cynnig cefnogaeth syml i wella cynhwysiant ariannol a mynediad at wasanaethau | • Dangos gwybodaeth sylfaenol o 5 thema cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru<br>• Nodi'r offer a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi dinasyddion gyda chynhwysiant ariannol |
| • Gallu atgyfeirio a chyfeirio yn briodol at ddarparwyr arbenigol | • Nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfeirio ac atgyfeirio<br>• Dangos dealltwriaeth ynglŷn â phryd y mae'n briodol i gyfeirio a phryd y mae angen atgyfeirio<br>• Dangos gwybodaeth am sefydliadau cynghori lleol a chenedlaethol perthnasol a'r gwasanaethau maent yn eu darparu<br>• Nodi beth yw atgyfeiriad effeithiol a dangos dealltwriaeth o sut i wneud atgyfeiriad o ansawdd |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd

Meithrin ffyniant nid tlodi

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

## Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth - Ffurflen Archebu

**Am beth mae'n sôn? ….** Un o brosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â thlodi drwy ddatblygu, cydlynu a hyrwyddo gwasanaethau cynhwysiant ariannol ledled Conwy a Sir Ddinbych. Bydd y sesiwn 3 awr llawn gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau sylfaenol i weithwyr y rheng flaen i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol a thlodi yn hyderus.

**Ar gyfer pwy mae'r sesiwn …** Mae'r sesiwn ymwybyddiaeth hon ar gyfer gweithwyr y rheng flaen sy'n dod i gysylltiad rheolaidd ag aelodau'r cyhoedd. Mae'n addas ar gyfer gweithwyr sydd mewn sefyllfa i gynnig cymorth, darparu gwybodaeth cyfeirio a gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau cynghori arbenigol.

**Beth fydd yn y sesiwn? …**

- Beth yw cynhwysiant ariannol a'r effaith mae'n ei chael ar bobl
- Eich rôl wrth fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol
- Nodi pan fydd angen cymorth ar rywun â chynhwysiant ariannol
- Rhoi pecyn gwaith i chi i gynnig cefnogaeth sylfaenol, cyfeirio ac atgyfeirio yn effeithiol

**Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth am ddim i weithwyr y rheng flaen yng Nghonwy a Sir Ddinbych**

**Sut i archebu …** Dewiswch ddyddiad a dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i financial.inclusion@denbighshire.gov.uk, neu ei phostio at Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd, Cyngor Sir Ddinbych, 64 Brighton Road, Y Rhyl, LL18 3HN. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01824 712272

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw | | Teitl Swydd | |
| Sefydliad | | Adran | |
| Rhif Cyswllt | | E-bost | |
| Enw Rheolwr | | E-bost Rheolwr | |
| Dyddiad y Sesiwn | | Amser y Sesiwn | |
| Lleoliad | | | |
| Unrhyw ofynion arbennig (cyfathrebu/mynediad) | | | |
| Dewis iaith | | | |

| Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Touchstones 12, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn | 1af May | 9.30am - 12.30pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 2il May | 9.30am - 12.30pm |
| Touchstones 12, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn | 13fed Mai | 1pm - 4pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 16fed Mai | 9.30am - 12.30pm |
| Touchstones 12, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn | 19fed Mai | 1pm - 4pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 21ain Mai | 1pm - 4pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 30fed Mai | 9.30am - 12.30pm |
| Touchstones 12, Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn | 4ydd Mehefin | 9.30am - 12.30pm |
| Glasdir, Llanrwst | 5ed Mehefin | 9.30am - 12.30pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 9fed Mehefin | 1pm - 4pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 10fed Mehefin | 9.30am - 12.30pm |
| DVSC, Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun | 12 fed Mehefin | 9.30am - 12.30pm |

| | | |
|---|---|---|
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 16$^{fed}$ Mehefin | 1pm - 4pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 18$^{fed}$ Mehefin | 1pm - 4pm |
| Touchstones 12, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn | 19$^{fed}$ Mehefin | 1pm - 4pm |
| Touchstones 12, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn | 24$^{ain}$ Mehefin | 9.30am - 12.30pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 25$^{ain}$ Mehefin | 9.30am - 12.30pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 27$^{ain}$ Mehefin | 9.30am - 12.30pm |
| Touchstones 12, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn | 1$^{af}$ Gorffennaf | 9.30am - 12.30pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 2$^{il}$ Gorffennaf | 1pm - 4pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 4$^{ydd}$ Gorffennaf | 9.30am - 12.30pm |
| DVSC, Canolfan Naylor Leyland, Stryd y Ffynnon, Rhuthun | 10$^{fed}$ Gorffennaf | 1pm - 4pm |
| Glasdir, Llanrwst | 15$^{fed}$ Gorffennaf | 1pm - 4pm |
| Touchstones 12, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn | 16$^{fed}$ Gorffennaf | 1pm - 4pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 22$^{ain}$ Gorffennaf | 9.30am - 12.30pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 23$^{ain}$ Gorffennaf | 1pm - 4pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 31$^{fed}$ Gorffennaf | 1pm - 4pm |
| Touchstones 12, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn | 5$^{ed}$ Awst | 9.30am - 12.30pm |
| Cartrefi Conwy, Abergele | 13$^{fed}$ Awst | 9.30am - 12.30pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 18$^{fed}$ Awst | 9.30am - 12.30pm |
| 64 Ffordd Brighton, Y Rhyl | 27$^{ain}$ Awst | 9.30am - 12.30pm |

**Diogelu Data** Cyngor Sir Ddinbych yw'r Rheolydd Data at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn rheoli'r wybodaeth a ddarperir gennych mewn modd sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio ar gyfer gofynion monitro a gwerthuso prosiectau yn unig.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

# Financial Inclusion Together Awareness Raising Session

## Equality Impact Assessment

# Financial Inclusion Together - Awareness Raising Session

**Contact:** Helen Jackson, Adult and Business Services

**Updated:** 21.05.14

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

| |
|---|
| A project proposal |

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

| |
|---|
| The two main aims of the project are:<br>To improve the strategic co-ordination and collaboration of services across Conwy and Denbighshire to ensure that financial inclusion is integrated and embedded into the normal service delivery of relevant public, private and third sector organisations.<br><br>To improve access to quality financial inclusion information and advice services which will ensure that people in Conwy and Denbighshire are empowered to manage a challenging economic future.<br><br>The purpose of the the proposal is to develop and improve awareness of financial inclusion amongst frontline workers within Local Service Board partner organisations across Conwy and Denbighshire. Frontline staff will be equipped to identify, offer basic support, signpost and refer effectively. In addition their improved knowledge will enable them to address any financial inclusion issues on a personal level. The increased knowledge and awareness amongst frontline workers will result in improved access to specialist advice agencies and support for citizens - with the ultimate aim of reducing poverty |

## 3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.

***Please note:*** *if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment **must** be undertaken*

| | |
|---|---|
| Yes | This proposal will impact frontline workers and ultimately citizens within Local Service Board organisations in Conwy and Denbighshire |

## 4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

| |
|---|
| The project proposal was developed collaboratively with a steering group made up of stakeholders from a wide range of organisations.<br><br>A baseline survey and training needs analysis was conducted to gain views from a broad range of stakeholders. The programme is being developed with a task and finish group made up of representatives from key partners. The programme is also being piloted prior to the main delivery phase from January 2014. |

## 5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?

*(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)*

| |
|---|
| This proposal will improve access to services and maximise the income of groups at risk of financial inlcusion issues. People within protected groups are potentially at a higher risk of financial inclusion issues, these include people with disabilities and older people. The increased knowledge and awareness of frontline staff will result in them receiving better service and an earlier intervention. |

## 6. Will this proposal / decision have a disproportionate negative impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?

| |
|---|
| No - From a frontline worker perspective we need to ensure that the Awareness Raising Sessions are accesssible to all. The pre course booking form asks participants if they have any additional needs, if any are highlighted we'll take appropriate measures to ensure that they are not a barrier to accessing the session. |

## 7. Has the proposal / decision been amended to eliminate or reduce any potential disproportionate negative impact? If no, please explain why.

| | |
|---|---|
| <Please Select> | N/A |

## 8. Have you identified any further actions to address and / or monitor any potential negative impact(s)?

| | |
|---|---|
| Yes | All the training venues that we use will have full disabled access. The resources and materials used will be clear with high contrast font used. Requests for adaptions such as training materials in different formats, interpretors, hearing loops, etc will be considered on an individual basis.<br><br>As requirement of the project funders we are capturing Equality and Diversity information from everyone who attends the Awareness Raising Session |

| Action(s) | Owner | By when? |
|---|---|---|
| Monitor the 'additional requirements' question on the session booking form. If there are requirements that we're not able to currently meet which create a barrier to accessing the sessions, seek to review and adapt our sessions to eliminate the barrier. | Sarah Lamberton | Throughout the project |
| Work with frontline workers to gain case studies which relate to individuals with protected characteristics to gain citizen perspectives and experiences of accessing services | Sarah Lamberton | Throughout the project |
| Develop links with organisations and groups who support people with protected characteristics and capture information on particular challenges they have around accessing financial inclusion services. This information can then be used to influence future service delivery | Sarah Lamberton | Throughout the project |
| <Please describe> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Unrestrict editing to insert additional rows> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |

---

## 9. Declaration

Every reasonable effort has been made to eliminate or reduce any potential disproportionate impact on people sharing protected characteristics. The actual impact of the proposal / decision will be reviewed at the appropriate stage.

| | |
|---|---|
| Review Date: | 1.11.14 |

| Name of Lead Officer for Equality Impact Assessment | Date |
|---|---|
| Helen Jackson | 27/10/13 |

**Please note you will be required to publish the outcome of the equality impact assessment if you identify a substantial likely impact.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mehefin 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwella Blynyddol 2013-14** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae’r adroddiad yn ymwneud â’r asesiad blynyddol o ragolygon y Cyngor ar gyfer gwella, a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i’r Aelodau ar Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) y Cyngor. Gweler Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai’r Cyngor nodi cynnwys yr adroddiad sydd ynghlwm a'r cynigion ar gyfer gwella sydd ynddo.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Dan y Mesur Llywodraeth Leol, mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiad blynyddol ar gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei amcanion a’i ragolygon ar gyfer parhau i wella yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ar gyfer y flwyddyn 2013-14, casgliad SAC oedd:

- Gwnaeth Sir Ddinbych gynnydd da wrth gyflwyno gwelliannau ym mhob un o’i amcanion blaenoriaeth ar gyfer 2012-13, ond mae angen gwelliannau pellach mewn rhai meysydd allweddol;

- Mae adolygiadau herio gwasanaethau’r Cyngor a mesurau eraill i hunanwerthuso ei berfformiad yn gadarn;

- Mae cynlluniau gwella’r Cyngor, a’i drefniadau i gefnogi gwelliant, yn gadarn.

- Mae’r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

Os bydd gan SAC bryderon sylweddol ynghylch y cynnydd a wnaed gan y Cyngor neu'r cyfeiriad y mae'n ei gymryd, bydd yn gwneud argymhellion ffurfiol i newid. Nid yw adroddiad Sir Ddinbych yn cynnig unrhyw argymhellion ffurfiol eleni (nid ydym erioed wedi derbyn unrhyw argymhellion mewn gwirionedd) sy'n adlewyrchu barn gadarnhaol SAC o gynnydd y Cyngor.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu ein bod yn gwneud popeth yn iawn, mae'n anochel y bydd angen gwneud mwy o waith ar rai pethau ac mae Adroddiadau Blynyddol y llynedd ac eleni'n gwneud rhai 'cynigion ar gyfer gwella'. Rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'r holl gynigion a wnaed yn adroddiad 20012/13 ac eleni mae'r Arolygwyr wedi gwneud dau gynnig pellach y maent yn teimlo a fydd yn helpu'r Cyngor i barhau i symud ymlaen. Y rhain yw:

- P1 - *Er mwyn cyflawni ei nod o foderneiddio gwasanaethau, dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei Wasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol.*

- P2 - *Dylai'r Cyngor sicrhau bod swyddi a chyfrifoldebau'n glir er mwyn cyflawni'r amcan tai fforddiadwy.*

Mae'r Cyngor yn derbyn y ddau gynnig hyn ac mae eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. O ran y cynnig yn ymwneud â'r gwasanaeth AD, rydym yn parhau i weithio ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd. Mewn perthynas â'r mater tai fforddiadwy, mae grŵp tasg o aelodau a Swyddogion allweddol yn cael ei sefydlu i adolygu ein hamcanion yn y maes pwysig hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad, ond mae adolygiad SAC ar gynnydd y Cyngor yn rhan bwysig o ddeall ein cynnydd tuag at gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae swyddogion wedi adolygu cywirdeb yr adroddiad cyn ei gyhoeddi. Bydd yn cael ei gyflwyno i Llywodraethu Corfforaethol ym mis Gorffennaf.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes angen.


**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai risg i'r Cyngor pe na bai'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan SAC yn cael eu gweithredu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 272A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a cynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Gwnaeth y Cyngor gynnydd da i gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion â blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen iddo wneud gwelliannau pellach mewn rhai gwasanaethau allweddol 7

Mae adolygiadau herio gwasanaethau a mesurau eraill y Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn gadarn 17

Mae gwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliant yn dda 19

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 23

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 24

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych 25

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 27

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ddinbych 29

# Adroddiad cryno a cynigion ar gyfer gwella

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio gwelliant wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso ei wasanaethau yn 2012-13 a chynllunio gwelliant yn 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Cafwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da i gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion â blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen iddo wneud gwelliannau pellach mewn rhai gwasanaethau allweddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- gweithiodd y Cyngor yn effeithiol gyda'i bartneriaid busnes i gyflwyno mentrau sy'n cefnogi'r economi leol;
- mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i wella perfformiad ym maes addysg ond cydnabu fod angen gwneud rhagor o gynnydd yng nghyfnod allweddol 3;
- mae cyflwr y rhan fwyaf o'r ffyrdd yn Sir Ddinbych wedi gwella;
- mae'r Cyngor yn parhau i wella lles ei ddinasyddion mwyaf agored i niwed;
- mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol i gadw amgylchedd Sir Ddinbych yn ddeniadol ond mae angen gwneud rhagor o waith i leihau achosion o dipio anghyfreithlon a gwella boddhad trigolion;
- mae'r Cyngor wedi helpu i atal nifer o bobl rhag mynd yn ddigartref ond mae ei waith i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar dai fforddiadwy wedi bod yn llai effeithiol; ac
- mae'r Cyngor wedi sicrhau rhywfaint o effeithlonrwydd wrth foderneiddio gwasanaethau ond bu diffyg cynnydd gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol i gyflawni targedau.

3 Cafwyd bod adolygiadau herio gwasanaethau a mesurau eraill y Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn gadarn. Yn benodol:

- mae trefniadau herio gwasanaethau y Cyngor yn dda;
- mae sail gadarn i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor;
- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur; ac
- mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion adrodd ariannol.

4 Yn olaf, cafwyd bod gwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliant yn dda. Yn benodol:

- mae'r defnydd o safonau perfformiad yn helpu i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cyson i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol;
- mae trefniadau corfforaethol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor;
- mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- mae prosesau ar gyfer gwella'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi gwella ac mae'r Cyngor yn cymryd camau pellach; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Cynigion ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Er mwyn cyflawni ei amcan i foderneiddio gwasanaethau, dylai'r Cyngor barhau â'i waith i fynd i'r afael â gwendidau yn ei Wasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol. |
| C2 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni ei amcan i ddarparu tai fforddiadwy. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio gwelliant wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad ynghylch pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Gwnaeth y Cyngor gynnydd da i gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion â blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen iddo wneud gwelliannau pellach mewn rhai gwasanaethau allweddol

## Gweithiodd y Cyngor yn effeithiol gyda'i bartneriaid busnes i gyflwyno mentrau sy'n cefnogi'r economi leol

10 Roedd amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 i ddatblygu'r economi yn cynnwys chwe chanlyniad bwriadedig:

- bydd y seilwaith sy'n cysylltu'r sir â'r rhanbarth ehangach a thu hwnt yn galluogi unigolion a busnesau yn Sir Ddinbych i gystadlu'n effeithiol mewn marchnadoedd ehangach am swyddi a masnach;
- bydd gan Sir Ddinbych weithlu sy'n meddu ar y sgiliau gofynnol i sicrhau twf busnes;
- bydd busnesau yn datblygu ac yn tyfu yn Sir Ddinbych;
- manteisir i'r eithaf ar gryfderau economaidd presennol Sir Ddinbych yn ogystal â'i botensial newydd.
- caiff trefi a chymunedau eu hadfywio; a
- chaiff lefelau amddifadedd mewn rhannau o'r Rhyl a Dinbych uchaf eu lleihau.

11 Mae'r Cyngor wedi chwarae rhan weithredol, ynghyd â'r pum awdurdod unedol arall yng Ngogledd Cymru, wrth sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cyngor yn gefnogwr brwd o'r bwrdd, ac mae'n cydnabod bod lles economaidd y Sir yn dibynnu'n fawr ar yr hyn sy'n digwydd y tu hwnt i'w ffiniau yn ogystal ag oddi mewn iddynt. Gwnaed pob partner yn gyfrifol am ddatblygu blaenoriaethau cytûn y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wrthi'n datblygu Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith integredig - sy'n cynnwys datblygu achos economaidd dros fuddsoddi mewn gwaith i drydaneiddio'r rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru - a Chynllun Datblygu Sgiliau.

12 Yn ystod 2012-13, canolbwyntiodd gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r canlyniad hwn ar gydweithio â'r Cynghorau Sgiliau Sector a Gyrfa Cymru i nodi bylchau o ran sgiliau a pharatoi cyngor a chyrsiau hyfforddi i gefnogi pobl ifanc. Er enghraifft, trafododd y Cyngor gytundeb datblygu â Strategaeth Dinas y Rhyl a pherchenogion safle'r hen Honey Club; wrth i'r safle gael ei ailddatblygu yn westy a bwyty, bydd hyfforddiant wedi'i deilwra yn helpu trigolion lleol i feithrin y sgiliau gofynnol pan fydd cyflogi staff yn dechrau.

13 Fel y gwelwyd yn 2011-12, ni lwyddwyd i gyflawni'r targed i leihau nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith o gymharu â lefelau cyfartalog yng Nghymru, ond mae'r dangosydd hwn wedi amrywio ac efallai nad yw'n adlewyrchu effeithiolrwydd gwaith y Cyngor o ran cefnogi twf economaidd. Mae'r gostyngiad dros y ddwy flynedd diwethaf yng nghanran y gweithgarwch economaidd yn Sir Ddinbych a'r gostyngiad yn nifer absoliwt y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn duedd gadarnhaol.

14 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, nodwyd ei bod yn anodd mesur effaith ymyriadau'r Cyngor o ran helpu i ddatblygu'r economi leol. Sefydlodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyfres o fesurau canlyniadau yn ddiweddar er mwyn mesur cynnydd yn y dyfodol ond ni fydd yn gallu cyflwyno adroddiad

ar y mesurau hyn tan y flwyddyn nesaf. Mae diffyg data sylfaenol mewn llawer o'r dangosyddion hyn ac efallai y caiff rhagor o fesurau eu cyflwyno i adlewyrchu natur ddynamig datblygiad economaidd. Mae hyn yn golygu na fydd y Cyngor yn gallu monitro yn gadarn y cynnydd yn erbyn ei ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'r economi tan ddiwedd 2014-15.

15 Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio data economaidd trydydd parti, fel yr hyn a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegol Gwladol, er mwyn monitro newidiadau yn yr economi leol. Er bod ystod eang o ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr ystadegau hyn, gallant fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am faterion economaidd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r ystadegau'n helpu'r Cyngor i nodi meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau sylweddol; er enghraifft, er mai cyfran gymharol fach o drigolion o oedran gweithio y Sir sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl, ceir cyfran uwch na'r cyfartaledd o drigolion o oedran gweithio sy'n meddu ar gymwysterau Lefel 2 neu uwch. Felly, er bod gan drigolion sy'n chwilio am waith gymwysterau sylfaenol, ni fydd llawer ohonynt yn gallu cystadlu'n effeithiol am swyddi gwag sy'n gofyn am gymwysterau lefel uwch. Un o brif heriau'r Cyngor fydd meithrin dealltwriaeth gadarn o iechyd yr economi leol a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i ddylanwadu ar y ffordd y mae'n rhoi cymorth.

16 Mae prosiectau unigol i ddatblygu'r economi wedi parhau i wneud cynnydd. Llwyddodd y Cyngor a'i bartneriaid i barhau i gefnogi nifer o brosiectau cyfalaf gan gynnwys cwblhau pont newydd Harbwr y Foryd a gwelliannau i'r harbwr. Mae pont cerdded a beicio Pont y Ddraig, sy'n ymestyn dros aber afon Clwyd, yn rhan o brosiect datblygu gwerth £10.5 miliwn ac mae'n cynnwys sgwâr cyhoeddus ac adeilad ar y cei fel canolbwynt i'r harbwr, y twyni tywod cyfagos a'r traethau.

17 Canolbwyntiodd y Cyngor ar helpu i gyflawni prosiectau a nodwyd yn y saith Cynllun Tref ac Ardal, fel sefydlu 'tîm y dref' yn Rhuthun er mwyn annog busnesau, atyniadau i ymwelwyr a digwyddiadau i weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Gwnaed cynnydd da hefyd i ddatblygu cynlluniau cynaliadwy ar gyfer ariannu prosiectau yn y dyfodol yn dilyn cynnig aflwyddiannus am arian gan Gronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru i gefnogi mentrau yn y Rhyl.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i wella perfformiad ym maes addysg ond cydnabu fod angen gwneud rhagor o gynnydd yng nghyfnod allweddol 3

18 Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol adran addysg y Cyngor yw gwella perfformiad ac ansawdd adeiladau ysgolion. Ar y cyfan, mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi gwneud cynnydd cadarnhaol a'i fod mewn sefyllfa dda i gyflawni ei gynlluniau o ran ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, a'i fod wedi gwneud cynnydd da i gyflawni ei raglen Moderneiddio Addysg. Mae wedi cytuno ar fframwaith priodol ar gyfer adfywio ysgolion ac mae'n cyflawni'r fframwaith hwn drwy broses effeithiol o adolygiadau ardal. Cynhaliodd Estyn arolygiadau mewn 10 ysgol yn Sir Ddinbych yn ystod blwyddyn academaidd 2012-13. Mae canlyniadau'r arolygiadau'n cymharu'n ffafriol â'r rheini mewn cynghorau eraill; roedd 90 y cant o'r graddau a ddyfarnwyd yn rhai 'da' neu 'rhagorol', ac ni ddyfarnwyd unrhyw raddau anfoddhaol.

19 Dengys ein hadolygiad o ddata perfformiad ym maes addysg fod disgyblion mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych ar y cyfan wedi cyflawni yn foddhaol yn 2013. Roedd canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen (disgyblion saith oed) a Chyfnod Allweddol 2 wedi gwella o gymharu â 2012, a hynny ar gyfradd gymharol debyg i gyfartaledd Cymru. Yn 2013, cyflawnodd 84.9 y cant o ddisgyblion saith oed yn Sir Ddinbych y dangosydd Cyfnod Sylfaen, uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 83 y cant, a'r wythfed canran uchaf yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 2, cyflawnodd 86 y cant o ddisgyblion y dangosydd pynciau craidd o gymharu ag 84.3 y cant ledled Cymru gyfan, sef y nawfed canran uchaf. Drwy gymharu perfformiad mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych â pherfformiad mewn ysgolion â lefelau tebyg o amddifadedd ledled Cymru, gwelir yn gyffredinol bod ysgolion yn Sir Ddinbych wedi perfformio ar yr un lefel â'r disgwyl yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

20 Perfformiad cymysg a welwyd ymhlith disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn 2013. Yng nghyfnod allweddol 3, roedd cyfran y disgyblion 14 oed a gyflawnodd y dangosydd pynciau craidd, fel y'i mesurwyd gan asesiadau athrawon, islaw cyfartaledd Cymru ym mhedair o'r pum mlynedd diwethaf, gyda 75 y cant yn cyflawni'r dangosydd hwnnw yn 2013. Er ei bod yn well na chanran 2012, gwelwyd cyfartaledd Cymru yn gwella i 77 y cant, gan olygu bod gan Sir Ddinbych y chweched canran isaf yng Nghymru o ran perfformiad. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o amddifadedd mewn mannau eraill yng Nghymru, canlyniadau gwan a welwyd mewn ysgolion yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau uwch o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Lefel 6 a Lefel 7) yn Sir Ddinbych yn sylweddol is mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth na chyfartaledd Cymru.

21 Mae gan wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol newydd Gogledd Cymru, 'GwE', a ddechreuodd ei waith ym mis Ebrill 2013, y potensial i hyrwyddo safonau gwell mewn ysgolion. Mae gan GwE hefyd y potensial i wella cysondeb asesiadau athrawon ledled Gogledd Cymru, mater a all effeithio ar ddibynadwyedd data am berfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2 a 3.

22 Fodd bynnag, roedd cyfran y disgyblion 16 oed yn Sir Ddinbych sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2 (sy'n cyfateb i bum gradd TGAU dda neu fwy) wedi cyrraedd 85.7 y cant yn 2013, ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, a'r ganran uchaf namyn un yng Nghymru. Mae perfformiad yn erbyn y mesurau hyn wedi gwella bron 18 pwynt canran dros y pedair blynedd diwethaf tra bod cyfartaledd Cymru wedi cynyddu ond 11 pwynt canran. Roedd pump o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych yn y chwartel uchaf o gymharu ag ysgolion mewn mannau eraill yng Nghymru.

23 Serch hynny, gwelwyd cyfran y disgyblion yr oedd eu cymwysterau TGAU yn cynnwys graddau da mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg a mathemateg yn gostwng ychydig yn 2013 i 53.4 y cant, dim ond ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae'r Cyngor yn ymwybodol y dylai perfformiad yn erbyn y mesur hwn fod yn well. Gwelwyd cyfran y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn

1 Er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd, rhaid i ddisgybl gyrraedd lefel ddisgwyliedig y cwricwlwm cenedlaethol mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

16 oed yn Sir Ddinbych nad ydynt yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant na chyflogaeth yn gostwng yn sylweddol yn 2012, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer, i 2.9 y cant. Dyma'r pumed canran isaf ymhlith cynghorau yng Nghymru, ac mae'n ffigur sylweddol well na chyfartaledd Cymru, sef 4.2 y cant.

24 Gwelwyd cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn gostwng ychydig yn ystod 2012/13. Mewn ysgolion cynradd, mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru ac mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion unigol yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru. Mewn ysgolion uwchradd, fodd bynnag, gwelwyd cyfraddau presenoldeb yn gostwng ychydig i 92.4 y cant, ychydig islaw cyfartaledd Cymru. Dengys cymariaethau ag ysgolion tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru nad oedd cyfraddau presenoldeb mewn chwe ysgol yn Sir Ddinbych yn 2012-13 yn cymharu'n dda â chyfraddau mewn ysgolion tebyg ledled Cymru.

25 Mae nifer y gwaharddiadau parhaus a chyfnod penodol hwy o ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yn isel. Yn ystod blwyddyn academaidd 2012-13, Sir Ddinbych oedd â'r gyfradd isaf namyn un yng Nghymru ar gyfer gwaharddiadau tymor penodol sy'n para chwe diwrnod neu fwy. Roedd cyfradd y gwaharddiadau tymor penodol byrrach ychydig islaw cyfartaledd Cymru.

26 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i fynd ar drywydd polisi i leihau nifer y disgyblion y mae ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae nifer y datganiadau a ddelir wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn o 551 ym mis Ionawr 2007 i 372 yn 2013. Mae'r gostyngiad hwn yn y galw am ddatganiadau yn helpu i sicrhau bod adnoddau arbenigol fel seicolegwyr addysgol yn gallu gwneud defnydd gwell o'u harbenigedd ac mae hefyd wedi galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y disgyblion hynny y mae angen datganiad arnynt yn ei gael yn brydlon.

27 Mae'r gwaith o foderneiddio ystâd ysgolion y Cyngor yn parhau. Ers 2009, mae cyfres o adolygiadau ardal wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr ysgolion cynradd a gynhelir gan y Cyngor o 53 i 47. At hynny, mae adeiladau ysgolion wedi cael eu hadnewyddu a, lle y bo angen, eu hymestyn. Daeth arolwg o adeiladau ysgolion yn 2009-10 i'r casgliad bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw sylweddol ar ychydig dros draean o adeiladau ysgolion y Cyngor. Gwnaed gwaith adfer mewn rhai o'r ysgolion yn y categori hwn ac mae ysgolion eraill wedi'u cynnwys mewn cynlluniau moderneiddio'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, erys o leiaf wyth ysgol lle mae ansawdd y cyfleusterau yn parhau'n broblem sylweddol.

28 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion, a hynny mewn modd effeithlon. Ym mis Ionawr 2013, roedd tua 1,500 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd (16.6 y cant o'r cyfanswm) ar draws y 47 o ysgolion. Er ei bod yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru, sef 10 y cant, mae'r ganran hon ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 17.6 y cant. Ar draws yr wyth o ysgolion uwchradd, roedd 1,244 o leoedd gwag, sef 16.2 y cant o'r cyfanswm. Mae'r ganran hon hefyd islaw cyfartaledd Cymru, sef 18.7 y cant.

29 Roedd gwariant net a gyllidebwyd ar addysg ar gyfer 2013-14, sef £5,135 fesul disgybl, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £4,992 fesul disgybl. Mae cost gros darpariaeth ysgolion cynradd, gan ystyried arian a ddirprwywyd ac arian nas dirprwywyd, ac eithrio cludiant o'r cartref i'r ysgol, ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef £4,614 fesul disgybl. Mae cost gros darpariaeth uwchradd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef £5,081 fesul disgybl.

30 Gwelwyd lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion yn Sir Ddinbych yn cynyddu'n sylweddol yn ystod 2012-13 i £2.9 miliwn. Gyda £190 wrth gefn fesul disgybl, dyma'r lefel uchaf namyn tri ymhlith cynghorau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r crynodeb o'r sefyllfa ariannol yn celu amrywiadau sylweddol rhwng ysgolion. Gwelwyd mwy na chwarter yr ysgolion yn cario gwargedion o fwy na 10 y cant o'u cyllidebau ymlaen i flwyddyn ariannol 2013-14, ond dechreuodd 19 y cant o'r ysgolion y flwyddyn â diffygion. Mewn nifer fach o achosion, mae diffygion hirsefydledig wedi dechrau cynyddu unwaith eto ar ôl cyfnod o ostyngiad graddol.

## Mae cyflwr y rhan fwyaf o'r ffyrdd yn Sir Ddinbych wedi gwella

31 Mae'r Cyngor wedi pennu targedau uchelgeisiol iddo'i hun i bennu p'un a yw ansawdd ei ffyrdd yn gwella. Ei uchelgais newydd yw sicrhau, erbyn 2017, y bydd llai na phump y cant o ffyrdd dosbarth A a B a llai na 10 y cant o ffyrdd dosbarth C mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn 2012-13 yn erbyn y mwyafrif o'i dargedau ar gyfer gwella cyflwr ffyrdd. Gwelwyd dangosyddion ar gyfer cyflwr ffyrdd dosbarth A a B yn gwella hefyd ond prin yw'r cynnydd a welwyd o ran ffyrdd dosbarth C ac mae 13.9 ohonynt yn parhau mewn cyflwr gwael.

32 Fel y nodwyd gennym yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, un o'r rhesymau dros gadw ffyrdd mewn cyflwr da yw gwella diogelwch. Mae'r Cyngor bellach yn monitro diogelwch ar y ffyrdd drwy fesurau i wrthsefyll sgidio, damweiniau fesul cilomedr, nifer y bobl sy'n manteisio ar hyfforddiant beicio a diogelwch, a hawliadau yswiriant. Yn 2012-13, llwyddodd yr holl ddangosyddion hyn i gyflawni targedau'r Cyngor a chaiff adroddiad ar fesurau perfformiad newydd ei gyflwyno yn 2014 ar gyfer canran y diffygion ar ffyrdd a atgyweiriwyd o fewn amseroedd targed a chanran y llwybrau allweddol sydd â chyrbiau isel.

33 Yn 2012-13, nodwyd £3.4 miliwn ar gyfer gwaith priffyrdd mawr gan fod cyflwr ffyrdd yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Fodd bynnag, nododd y Cyngor yn ei Adroddiad Blynyddol fod hwn yn faes y mae angen ei wella fel mater o flaenoriaeth, gan mai dim ond 86 y cant o'r rhaglen cyfalaf cynnal a chadw priffyrdd arfaethedig a gyflawnwyd yn 2012-13.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wella lles ei ddinasyddion mwyaf agored i niwed

34 Yn ei hadolygiad a'i gwerthusiad o wasanaethau gofal cymdeithasol yn 2012-13, daeth AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn parhau i wella lles ei ddinasyddion mwyaf agored i niwed. Mae'r adroddiad yn disgrifio newidiadau cadarnhaol mewn gwasanaethau oedolion a phlant.

35 Canfu AGGCC fod pwyslais y Cyngor ar ymyrryd yn gynnar, atal ac ailalluogi yn parhau i alluogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol. O ganlyniad, mae angen i lai o oedolion gael eu derbyn i'r ysbyty neu gartref gofal preswyl ac mae'r Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth mwy cynhwysfawr i deuluoedd wrth i'w anghenion newid. Mae mwy o bobl yn gallu cael gafael ar gymorth parhaus yn eu cymunedau eu hunain ac mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais cynyddol ar ddewis a rheolaeth bersonol drwy hyrwyddo taliadau uniongyrchol a chymorth wedi'i anelu at ddinasyddion.

36 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â phobl sy'n defnyddio ei wasanaethau a noda AGGCC fod tystiolaeth dda bod safbwyntiau defnyddwyr wedi'u cynnwys mewn gwaith i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Mae Sir Ddinbych yn darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau da ar ei wasanaethau, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall y pwyslais newydd ar atal a galluogi mewn gwasanaethau oedolion.

37 Yn 2011-12, adolygwyd cynlluniau gofal llai o oedolion nag mewn blynyddoedd blaenorol a nodwyd hyn gan AGGCC fel maes i'w wella. Mae adroddiad 2012-13 AGGCC yn cadarnhau fod amseroldeb adolygiadau wedi gwella; mae perfformiad y Cyngor yn y maes hwn bellach ymhlith y gorau yng Nghymru a bydd hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth cywir i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor bennu canlyniadau mesuradwy clir er mwyn helpu i werthuso gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

38 Mae amseroldeb asesiadau o fewn gwasanaethau plant hefyd wedi gwella. Mae hyn wedi gwella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau a'r broses o reoli achosion. Mae gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder, fodd bynnag; mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych sy'n cael asesiadau iechyd a phrofion deintyddol ymhlith yr isaf yng Nghymru; mae'r ganran o blant sy'n cael eu lleoli deirgwaith neu fwy wedi dyblu dros y tair blynedd diwethaf; ac mae llai o blant sy'n derbyn gofal nag o'r blaen yn cael cynllun sefydlogrwydd o fewn y cyfnod gofynnol. Noda AGGCC fod angen gwneud gwaith i wella sefydlogrwydd y plant hyn a sicrhau bod eu hanghenion gofal iechyd ac addysg yn cael eu diwallu.

39 Mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r cymorth a roddir i ofalwyr yn Sir Ddinbych. Noda AGGCC fod gan y Cyngor strategaethau ar waith i wella gwasanaethau ac mae'n gweithio gydag asiantaethau trydydd sector a grwpiau gofalwyr yng Ngogledd Cymru i ddarparu cymorth gwell.

40 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gydweithio ac mae wedi arwain a chefnogi nifer o fentrau aml-asiantaeth yn effeithiol. Mae gwaith partneriaeth wedi galluogi'r Cyngor i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u hailstrwythuro ac mae hyn wedi gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y sir. Noda AGGCC fod cydberthnasau ag asiantaethau partner yn dda ar lefel unigol a sefydliadol, er bod rhai heriau o ran ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol â'r strwythurau newydd o fewn y bwrdd iechyd lleol.

41 Un o'r prif bethau y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio lles yn canolbwyntio arno yw newidiadau i Fudd-dal Tai, gyda'r nod o leihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Mae'r rhain yn cynnwys gostwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer hawlwyr yn y sector rhentu preifat a didyniadau mewn taliadau i denantiaid yn y sector cymdeithasol sy'n byw mewn cartrefi a danfeddiannir. Ers mis Ebrill 2013, mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyflwyno cap ar gyfanswm y budd-daliadau y gall pobl o oedran gweithio eu cael. Bydd yr holl newidiadau hyn yn golygu y bydd miloedd o gartrefi ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau, gan arwain at ddewisiadau anodd iddynt am y ffordd y maent yn defnyddio eu harian ac yn ymdopi o ddydd i ddydd.

42 Cyflwynodd y Cyngor a'i bartneriaid gyfres o brosiectau rhyng-gysylltiedig er mwyn ceisio mynd i'r afael â thlodi a gwella ansawdd bywyd trigolion o ardaloedd mwy difreintiedig y sir. Er enghraifft, sicrhawyd bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar ymwelwyr iechyd, gofal plant a rhaglenni rhianta er mwyn paratoi plant sy'n dechrau yn yr ysgol yn well. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gyngor a chanllawiau ar les, tai a chyflogaeth yn lleol er mwyn helpu'r rhai sy'n agored i newid i gael y cymorth y mae ganddynt yr hawl iddo. Gwelwyd gwaith yn parhau hefyd ar brosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl a Phrosiect Cartrefi Gwag Sir Ddinbych, er mai prin fu llwyddiant y Cyngor hyd yma yn y maes hwn.

43 Mae'r amser cyfartalog a gymerir gan y Cyngor i brosesu hawliadau budd-dal yn gwella, gan ostwng o 15 diwrnod yn 2011-12 i 12 diwrnod yn 2012-13. Erys hyn yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod. Mae'r amser a gymerir i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau yn parhau yr un fath ag ar gyfer 2011-12, sef pum diwrnod. Mae hyn ychydig yn well na chyfartaledd Cymru, sef chwe diwrnod.

44 Er bod cyflymder prosesu yn bwysig, mae nifer o fesurau eraill sy'n helpu i roi darlun llawn o ba mor dda y mae'r Cyngor yn prosesu ceisiadau am fudd-dal tai. Canfu dadansoddiad o'r mesurau hyn, fel canran yr hawliadau newydd a benderfynwyd o fewn 14 diwrnod ar gyfer 2012-13, fod perfformiad wedi dirywio, ond, yn dilyn camau gan reolwyr, mae'r dangosyddion hyn wedi gwella yn ystod 2013-14.

## Mae'r Cyngor wedi gweithio'n effeithiol i gadw amgylchedd Sir Ddinbych yn ddeniadol ond mae angen gwneud rhagor o waith i leihau achosion o dipio anghyfreithlon a gwella boddhad trigolion

45 Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion lleol i farnu llwyddiant wrth godi ymwybyddiaeth o faterion megis sbwriel a baw cŵn fel rhan o'i waith i sicrhau strydoedd glân a thaclus yn Sir Ddinbych. Mae'r 'Mynegai Glendid', sy'n mesur glendid cyffredinol priffyrdd a thir o fewn y sir, ymhlith y gorau a gofnodwyd yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau eraill yng Nghymru, ac mae'r Cyngor wedi nodi hyn fel maes i'w wella.

46 Cynhaliodd y Cyngor arolwg preswylwyr yn 2013 a nododd lefel uchel o anfoddhad ymhlith trigolion (51 y cant) o ran nifer yr achosion o faw cŵn yn yr ardal. Lansiodd y Cyngor ei ymgyrch i atal baw cŵn yn ddiweddar, sef 'Carwch eich Ci, Parchwch yr Amgylchedd'. Nod yr ymgyrch yw annog perchenogion cŵn i fod yn gyfrifol ond hefyd i wella'r ffordd y gallai trigolion roi gwybod am broblemau. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflogi tîm o swyddogion gorfodi amgylcheddol a all ymateb i gwynion yn ogystal ag olrhain troseddwyr a rhoi dirwyon. Gwnaed gwaith gorfodi wedi'i dargedu mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys gosod arwyddion, dosbarthu llythyrau, siarad â pherchenogion cŵn, darparu bagiau gwastraff, a dosbarthu cardiau post â rhifau ffôn i roi gwybod am ddigwyddiadau. Er bod yr ymgyrch wedi codi ymwybyddiaeth pobl o'r broblem yn ymwneud â baw cŵn, mae'n rhy gynnar i weld a yw boddhad trigolion â'r mater hwn wedi gwella.

## Mae'r Cyngor  wedi helpu i atal nifer o bobl rhag mynd yn ddigartref ond mae ei waith i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar dai fforddiadwy wedi bod yn llai effeithiol

47 Mae Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer Gwella ym maes tai yn ehangach na gwella ansawdd stoc y Cyngor yn unig. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o gartrefi fforddiadwy o ansawdd digonol ar gael, a helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd ar fin bod yn ddigartref.

48 Yn Sir Ddinbych, gwelwyd tuedd debyg i'r hyn a welwyd mewn mannau eraill yng Nghymru gyda nifer gynyddol o deuluoedd yn cael eu derbyn yn ddigartref. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Digartref y Cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth ers 2012. Parhaodd y Cyngor i gymryd camau ardderchog i atal digartrefedd yn 2012-13, gan berfformio orau ymhlith cynghorau yng Nghymru.

49 Yn 2012-13,  roedd nifer y teuluoedd a dderbyniwyd yn ddigartref ac y rhoddwyd blaenoriaeth i'w hanghenion ymhlith yr isaf yng Nghymru ac yn sgil hynny, roedd nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro, ar gyfartaledd, yn is nag mewn cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru. Roedd y cyfnod cyfartalog yr oedd teuluoedd digartref yn ei dreulio mewn llety dros dro yn Sir Ddinbych hefyd yn isel ac yn cynrychioli perfformiad chwartel uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru.

50 Mae Llywodraeth Cymru wedi annog mwy o gamau gweithredu gan yr wyth cyngor yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, a fethodd â chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed gwreiddiol, sef 2012. Yn wreiddiol, roedd y Cyngor yn credu y byddai'n cydymffurfio'n llawn â'r safon erbyn 2012. Fodd bynnag, dim ond 86 y cant o'r cartrefi rhent a reolir gan y Cyngor a gyrhaeddodd y Safon yn 2012. Nod presennol y cyngor yw sicrhau cydymffurfiaeth lawn erbyn mis Ebrill 2014.

51 Nododd y Cyngor welliannau mewn amseroedd ymateb ar gyfer categorïau atgyweiriadau brys ac atgyweiriadau nad ydynt yn rhai brys yn ystod 2012-13, ond mae methiant y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn gyson â deddfwriaeth yn ymwneud â chwblhau profion diogelwch nwy blynyddol yn ei stoc tai yn destun pryder y mae'r Cyngor bellach yn cymryd camau i fynd i'r afael ag ef.

52 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy ac mae'n cydnabod bod llai na chwarter y tai fforddiadwy yr amcangyfrifwyd bod eu hangen wedi'u hadeiladu yn 2012-13. Roedd y 61 o gartrefi fforddiadwy a gwblhawyd yn Sir Ddinbych yn ystod y ddwy flynedd ers 2011 yn llai na'r 154 o gartrefi a gwblhawyd yn 2010-11. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy ac mae wedi pennu targed i gwblhau 570 o gartrefi newydd rhwng 2012 a 2017. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn ystod 2012-13 islaw targed y Cyngor. Yn ogystal â'i waith parhaus i ddarparu eiddo fforddiadwy yn y sir, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill i nodi amrywiaeth o fentrau newydd i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y dyfodol, ond nid yw'r Strategaeth Tai bresennol yn nodi'n ddigon clir rolau a chyfrifoldebau i gyflawni'r targed ar gyfer tai fforddiadwy erbyn 2017. Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal adolygiad o'r ffordd y bydd yn cyflawni ei darged ar gyfer tai fforddiadwy.

## Mae'r Cyngor wedi sicrhau rhywfaint o effeithlonrwydd wrth foderneiddio gwasanaethau ond bu diffyg cynnydd gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol i gyflawni targedau

53 Mae'r Cyngor yn diffinio llwyddiant o ran sicrhau effeithlonrwydd a gwasanaethau gwell i gwsmeriaid yn bennaf drwy fesur adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid, y gallu i sicrhau Cytundebau Canlyniadau â Llywodraeth Cymru a llwyddiant prosiectau'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar ei gynnydd yn unol â dangosyddion cenedlaethol statudol Llywodraeth Cymru.

54 Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ei amcan gwella i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Un o'r prif ddangosyddion ar gyfer yr amcan hwn yw nifer y cwynion a wneir i'r Cyngor a pha mor gyflym yr ymatebir iddynt. Gwelwyd y ddau ddangosydd yn gwella yn 2012-13 ond mae'r Cyngor yn anelu at welliannau pellach dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol. Dangosodd Arolwg Preswylwyr 2013, er bod cynnydd ers arolwg 2011, mai dim ond 43 y cant oedd o'r farn bod y Cyngor yn effeithlon ac yn cael ei redeg yn dda a dim ond 48 y cant oedd o'r farn bod y Cyngor yn gweithredu ar bryderon trigolion (cynnydd o gymharu â 40 y cant yn 2011).

55 Gwelwyd amrywiaeth o brosiectau gwella a oedd yn gysylltiedig â'r amcan hwn yn gwneud cynnydd yn 2012-13. Mae'r Cyngor wedi lansio gwefan well, wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar Siarteri Tref a Chymuned, ac wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau i wella safonau gwasanaethau cwsmeriaid ac ansawdd dulliau cyfathrebu â chwsmeriaid. Dangosodd Arolwg Preswylwyr 2013 fod dros 70 y cant o'r trigolion yn fodlon ar wasanaethau cwsmeriaid ar draws amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad er mai dim ond 53 y cant oedd yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

56 Ar gyfer 17 o 30 o ddangosyddion cenedlaethol statudol Llywodraeth Cymru, roedd perfformiad Sir Ddinbych yn y chwartel uchaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Roedd y Cyngor yn gwbl lwyddiannus o ran saith o'r 10 cytundeb canlyniadau a bennwyd gyda Llywodraeth Cymru ac yn rhannol lwyddiannus o ran y tri chanlyniad arall.

57 Mae gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol y Cyngor yn allweddol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Prin yw'r cynnydd a wnaed gan y gwasanaeth i gyflawni ei dargedau mewnol allweddol yn ystod 2012-13. Mae'n bosibl y bydd y diffyg cynnydd hwn yn atal cynnydd yn y dyfodol wrth geisio moderneiddio gwasanaethau ar draws y Cyngor. Cafwyd oedi wrth weithredu'r system werthuso staff, er enghraifft, ac nid ymddengys fod cysondeb y broses o'i gweithredu wedi'i fonitro mewn ffordd effeithiol. Nid oes gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol ddealltwriaeth glir a chadarn o gost ei wasanaeth, a sut mae hyn yn cymharu â chynghorau eraill. Dengys arolygon staff fod morâl ymhlith staff y gwasanaeth Adnoddau Dynol corfforaethol yn isel. Nid yw'r wybodaeth am ganlyniadau a pherfformiad y gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn gynhwysfawr ac nid oes mesurau perfformiad allweddol ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Fodd bynnag, dangosodd adroddiad ar archwiliad mewnol diweddar fod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella.

# Mae adolygiadau herio gwasanaethau a mesurau eraill y Cyngor i hunanwerthuso ei berfformiad yn gadarn

## Mae trefniadau herio gwasanaethau'r Cyngor yn dda

58 Mae trefniadau Herio Gwasanaethau'r Cyngor wedi gwella yn ystod 2013 ac maent yn cynnig cyfleoedd blynyddol gwerthfawr i uwch swyddogion ac aelodau etholedig allweddol ystyried yn fanwl y dystiolaeth am berfformiad y gwasanaethau hynny a reolir gan bob pennaeth gwasanaeth. Mae cyfarfodydd paratoadol a reolir yn dda, lle nad yw'r rheolwyr gwasanaethau yn bresennol, yn ystyried tystiolaeth fanwl o berfformiad yn ogystal â materion megis absenoldeb oherwydd salwch. Yn bwysig ddigon, mae'r cyfarfodydd paratoadol yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i bennu perfformiad gwasanaethau yng nghyd-destun risgiau a nodwyd, a sicrhau bod y cyfarfod herio gwasanaeth dilynol yn canolbwyntio ar y materion hynny sydd fwyaf perthnasol. Lle y bo angen, mae'r cyfarfodydd paratoadol yn nodi meysydd lle nad oes tystiolaeth ddigonol ar gael a lle mae angen i benaethiaid gwasanaethau gyflwyno rhagor o wybodaeth cyn i'r cyfarfod herio gwasanaeth gael ei gynnal ychydig wythnosau yn ddiweddarach.

59 Caiff y cyfarfodydd paratoadol a'r cyfarfodydd herio gwasanaethau eu cynnal mewn modd ffurfiol ond heb fod yn fygythiol. Maent yn rhan bwysig o broses hunanwerthuso'r Cyngor, ac yn galluogi uwch reolwyr ac aelodau etholedig i ddeall yn well pa mor dda y mae pob gwasanaeth yn perfformio yn erbyn targedau ac yn y cyd-destun cenedlaethol, ac i nodi'r hyn sydd angen ei wneud mewn meysydd nad ydynt yn perfformio cystal.

## Mae sail gadarn i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor

60 Daeth ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf (Mai 2013) i'r casgliad bod sail gadarn i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor a'u bod yn datblygu'n foddhaol, gydag arweinyddiaeth glir ac effeithiol gan uwch swyddogion a chynghorwyr. Mae hynny'n wir o hyd. Mae'r pwyllgor craffu ar berfformiad a'r cyfarfodydd herio gwasanaethau a atgyfnerthwyd yn cael gwybodaeth o ansawdd cyson am berfformiad mewn fformat sy'n hawdd ei deall. Yn ogystal â'r cyfarfodydd herio gwasanaethau, mae Cabinet y Cyngor yn adolygu perfformiad bob chwe mis.

61 Er bod nifer gyffredinol y staff wedi'i lleihau, gwelsom fod tîm polisi canolog y Cyngor yn parhau i oruchwylio, cydgysylltu, a rheoli perfformiad yn weithredol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gallu parhau i weithredu system rheoli perfformiad gyson a ddeellir yn glir.

62 Roedd canlyniadau ein harchwiliad yn 2013 a chywirdeb sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor yn foddhaol ac ni wnaethom amodi unrhyw un o ddangosyddion perfformiad y Cyngor.

## Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant sy’n ofynnol o dan y Mesur

63 Daeth Llythyr Asesiad Gwella’r Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2013 i’r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn benodol:

- roedd y Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o’i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* ar gyfer 2012-13 (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut roedd y Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- roedd yr Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion a oedd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adroddiad;
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y’u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
- roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd yr oedd y Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

## Roedd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion adrodd ariannol

64 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ar 25 Tachwedd 2013. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

# Mae gwaith cynllunio gwelliant y Cyngor a'i drefniadau i gefnogi gwelliant yn dda

## Mae'r defnydd o safonau perfformiad yn helpu i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais

65 Nododd Llythyr Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2013 fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Cyhoeddodd y Cyngor *Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 2* (y Cynllun), adolygiad blynyddol o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-17 (Cyngor sy'n Perfformio'n Dda, yn Agos at y Gymuned), ym mis Ebrill 2013. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y Mesur i lunio Cynllun Gwella blynyddol. Mae'r Cynllun yn syml ac yn gryno, ac mae'n nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a sut y bydd yn gwneud hynny. Eglurir y rhesymeg dros ddewis Amcanion Gwella (Canlyniadau) yn gryno ond yn glir. Mae'r Cynllun hefyd yn egluro nodau'r Cyngor ar gyfer 2013-14 a'r mesurau y byddai'n eu defnyddio i werthuso llwyddiant wrth gyflawni ei amcanion.

66 Ymgynghorodd y Cyngor yn helaeth wrth ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol. Cytunwn â phenderfyniad y Cyngor ei bod yn rhy fuan i ymgynghori eto ar yr Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14. Oherwydd hynny, datblygwyd y mesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i werthuso llwyddiant o ran cyflawni ei amcanion o fesurau a nodwyd mewn cynlluniau gwasanaeth drafft ar gyfer 2013-14 a thrafodaethau â'r tîm arwain ac Aelodau etholedig.

67 Mae'r Cyngor wedi gwrthod proses o bennu targedau sy'n seiliedig ar ddilyniant cynyddraddol o berfformiad y flwyddyn flaenorol o blaid proses sy'n seiliedig ar gyflawni'r 'trothwy rhagoriaeth'. Mae trothwyon rhagoriaeth fel arfer yn seiliedig ar sicrhau fod perfformiad y Cyngor ymhlith y chwe chyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru. Os yw dros hanner y cynghorau eraill yng Nghymru yn perfformio'n well na Sir Ddinbych, bydd y Cyngor yn ystyried hyn yn flaenoriaeth uchel ar gyfer gwella.

68 Mae'r uwch reolwyr yn deall y cysyniad o 'drothwy rhagoriaeth' yn glir ac mae'n helpu i sicrhau lefel gyson o uchelgais ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, awgryma ein gwaith ar ansawdd data nad yw rhai aelodau o staff mewn gwasanaethau unigol mor glir ynghylch y broses newydd o weithredu amcanion corfforaethol a'u bod wedi cael anhawster deall sut y byddent yn nodi pa un a fyddai pobl Sir Ddinbych yn well eu byd ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Corfforaethol.

69 Mae'r Cyngor wedi nodi'n glir y cyswllt rhwng ei Amcanion Gwella a'i gynllun ariannol tymor canolig. Mae wedi nodi'r adnoddau sydd ar gael i helpu i gyflawni Amcanion Gwella yn 2013-14, o arian refeniw yn ogystal â £6 miliwn o arian cyfalaf ychwanegol.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol

70 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2013 yr Archwilydd Cyffredinol. Yn benodol:

- Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau am gydweithio yn *Nogfen Gyflawni Blwyddyn 2* ac mae'n nodi'n glir statws a chanlyniadau ei amcanion cydweithio. Mae *Dogfen Gyflawni Blwyddyn 2* yn nodi cynnydd a phroblemau mewn perthynas â phrosiectau cydweithio, yn bennaf y penderfyniad gan gynghorau Sir Ddinbych a Chonwy i beidio â mynd ar drywydd gwaith i integreiddio eu Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd.

- Yn Adroddiad Gwella Blynyddol mis Mai 2013, nodwyd nad oedd eglurder y cyswllt rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, data sylfaenol a thargedau ar gyfer gwella ategol yn y Cynllun Corfforaethol yn gyson eto ar draws pob un o'r saith Amcan Gwella. Mae hyn yn wir o hyd yn *Nogfen Gyflawni Blwyddyn 2*. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran asesu a oes unrhyw un yn well ei fyd o ganlyniad i'w waith. Mae wedi cyhoeddi canllawiau technegol i staff sy'n diffinio dangosyddion i fesur llwyddiant pob un o'r Amcanion Gwella a'r 'trothwy rhagoriaeth' y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyflawni dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol.

71 Fel rhan o'i gylch gwella ei hun, mae'r Cyngor wedi rhoi ar waith yr holl gynigion a nodwyd gennym yn ein hadolygiadau thematig o Dechnoleg, Prosesau Rheoli Gwybodaeth a Threfniadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

## Mae trefniadau corfforaethol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

72 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

73 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

74 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i asesu ei ddarpariaeth yn Gymraeg drwy gynnal ymarfer Siopwr Cudd. Er mwyn cael y budd mwyaf o'r broses, rhaid i'r Cyngor gymryd camau i wella'r Cynllun Gweithredu

a'i roi ar waith. Mae'r Cyngor wedi bod wrthi'n datblygu nifer o aelodau o staff a all ddarparu gwasanaeth sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gyflwyno cynllun mentora a gweithio mewn partneriaeth gyda cholegau lleol. Gan mai prin yw'r cyfleoedd i gynllunio'r gweithlu drwy ymgyrchoedd recriwtio ar hyn o bryd, bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg a'i gynllunio'n effeithiol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd bob chwarter ac mae'r swyddogion cwynion newydd yn cyflwyno adroddiad chwarterol i'r swyddog iaith ar gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

75 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (y Ddeddf) yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2012. Mae cyswllt amlwg rhwng y gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu Amcanion Gwella o dan y Mesur.

76 Mae Amcanion Gwella'r Cyngor yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys gwybodaeth am waith y Cyngor ym maes cydraddoldeb, yn arbennig mewn perthynas ag ymchwil, ac adroddiadau ar bynciau sy'n ymwneud â grwpiau gwarchodedig a chynlluniau'r Cyngor i ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn y dyfodol. Credwn fod y Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf wrth bennu ei Amcanion Gwella.

77 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn amlinellu cynnydd eu cynlluniau cydraddoldeb strategol. Cyhoeddwyd adroddiad Sir Ddinbych cyn y terfyn amser statudol, sef mis Mawrth 2013, ac rydym o'r farn ei fod wedi bodloni gofynion y Ddeddf o ran cyflwyno adroddiadau ar gynnydd. Nod y Cyngor yw y bydd y Cynllun Corfforaethol nesaf yn 2017 yn cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ar draws ei wasanaethau.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'n cymryd camau pellach

78 Yn fy Llythyr Asesiad Gwella ym mis Medi 2013, nodais fod y Cyngor wedi bod yn agored i ddysgu, fel y gwelir o'r gwelliannau a wnaed ganddo i'w drefniadau ar gyfer drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012-13. Roedd y Cyngor wedi sefydlu Grŵp Llywodraethu er mwyn llunio cynllun gweithredu i ddwyn ynghyd yr holl argymhellion mewnol ac allanol allweddol i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac roedd yn parhau i ystyried ffyrdd o wneud gwelliannau pellach.

79 Fodd bynnag, mae'r Cyngor, drwy waith y Grŵp Llywodraethu, yn cydnabod bod angen iddo gymryd camau ychwanegol i gael safbwyntiau uwch swyddogion ac aelodau ar effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu. Prin yw'r cyfeiriadau yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol cyfredol 2012-13 at reolaethau llywodraethu mewn perthynas â chomisiynu, a phrin yw'r gwaith sicrwydd a wneir gan y Cyngor i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo atgyfnerthu trefniadau ar gyfer datblygu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae hefyd yn cymryd camau i wella rheolaethau partneriaeth.

## Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol yn effeithiol

80 Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir yr hyn y mae ei Amcanion Gwella yn anelu at ei gyflawni ac mae wedi cynnwys manylion bras, wedi'u cysylltu â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig, am yr adnoddau sydd ar gael, o ran refeniw a chyfalaf, i helpu i'w cyflawni. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn wynebu her sylweddol ar gyfer y dyfodol yn dilyn newidiadau sylfaenol yn yr hinsawdd ariannol. Er gwaethaf setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 sy'n cynnwys cynnydd o 3.5 y cant yn y dreth gyngor ac arbedion o £8.5 miliwn. Bydd angen gwneud rhagor o arbedion ar gyfer y cyfnod 2015-18. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ystyried pob opsiwn ac mae wedi dechrau nodi amrywiaeth o fesurau posibl y bydd yn ymgynghori arnynt yn ystod 2014.

81 Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r Senedd ar 20 Hydref 2010. Roedd hyn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Mae polisïau'r Canghellor yn cynrychioli'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol, dylai awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i lywodraeth leol yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

82 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

83 Ar sail y casgliadau a amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cred Archwilydd Cyffredinol Cymru fod Cyngor Sir Ddinbych yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'.  Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.  Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £236 miliwn y flwyddyn (cyllideb 2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,500 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu gwario £49.9 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,052 y flwyddyn. Cynyddodd 2.34 y cant i £1,074 miliwn ar gyfer 2013-14. Mae 84 y cant o dai Sir Ddinbych yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D. Yn 2013-14, roedd y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn Lloegr £370 yn uwch na'r ffigur yn Sir Ddinbych, sef £1,444.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 47 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Y Cynghorydd Hugh H Evans OBE yw'r Arweinydd. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 8 o'r Blaid Geidwadol
- 13 o Aelodau Annibynnol
- 8 o Blaid Cymru
- 18 o'r Blaid Lafur

Dr Mohammed Mehmet yw Prif Weithredwr y Cyngor ac mae ei dîm rheoli yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles - Sally Ellis (ymddeolodd ym mis Chwefror 2014). Nicola Stubbins yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol – Rebecca Maxwell
- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau - Hywyn Williams

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Ddinbych yw:

- Ann Jones, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- Darren Millar, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Ken Skates, De Clwyd, y Blaid Lafur

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad yw:

- Llŷr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Ddinbych yw:

- Chris Ruane, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- David Jones, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Susan Elan Jones, De Clwyd, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.sirddinbych.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN. Ffôn:  01824 706000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Hugh H Evans - Arweinydd
Mohammed Mehmet - Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
LL15 1YN

Annwyl Gynghorydd Evans a Dr Mehmet

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;  a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2013, rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 27 Medi 2013 a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Ar hyn o bryd ni allaf ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau am fod gwrthwynebiadau i'r cyfrifon a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn agored o hyd. Rwyf wrthi'n dod i gasgliad ffurfiol ar y gwrthwynebiadau hyn sy'n fy ngalluogi i ardystio cau archwiliad 2012-13.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**

Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

25 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ddinbych

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 ym mis Ebrill 2013. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor yn www.sirddinbych.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Blaenoriaethau amcanion gwella allweddol 2012-13 | Blaenoriaethau amcanion gwella allweddol 2013-14 |
|---|---|
| Datblygu'r economi leol. | Datblygu'r economi leol. |
| Gwella perfformiad ym maes addysg ac ansawdd adeiladau ysgolion. | Gwella perfformiad ym maes addysg ac ansawdd adeiladau ysgolion. |
| Gwella ein ffyrdd. | Gwella ein ffyrdd. |
| Diogelu pobl sy'n agored i niwed a sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. | Diogelu pobl sy'n agored i niwed a sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. |
| Strydoedd glân a thaclus. | Strydoedd glân a thaclus. |
| Sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael. | Sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael. |
| Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. | Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn www.sirddinbych.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

**Adroddiad i'r:** **Y Cyngor Llawn**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **10 Mehefin 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Barbara Smith**

**Awdur yr Adroddiad:** **Sophie Vaughan, Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo**

**Teitl: Polisi Disgresiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r newidiadau i ddeddfwriaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, 2014, a'r newidiadau sydd eu hangen i bolisïau'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad ar Bolisi Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (copi ynghlwm yn Atodiad A) a'r newidiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad canlynol.

**Cefndir**

Mae’r gost o ddarparu cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus wedi bod yn cynyddu'n raddol dros nifer o flynyddoedd ac roedd y Llywodraeth flaenorol yn poeni am eu cynaliadwyedd tymor hir. O ganlyniad, penododd y Llywodraeth yr Arglwydd Hutton i gadeirio Comisiwn Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus annibynnol i gynnal adolygiad sylfaenol o ddarpariaeth pensiwn y sector cyhoeddus.

Derbyniodd y Llywodraeth bresennol argymhellion y Comisiwn ac fe wnaeth adrannau'r llywodraeth drafod gyda'r cynrychiolwyr cyflogwyr ac undebau llafur perthnasol, ac o ganlyniad daeth y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol newydd i rym ar 1 Ebrill 2014.

Mae'r rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr o’r cynllun i adolygu eu datganiadau polisi pensiwn er disgresiwn presennol a chyhoeddi datganiadau newydd sy’n weithredol o 1 Ebrill, 2014. Mae'n ofynnol bod y datganiad polisi disgresiwn yn cael ei gytuno a'i gyhoeddi erbyn 1 Gorffennaf, 2014.

Mae’r prif newidiadau i'r cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Ebrill yn cael eu crynhoi isod:-

- I newid o gynlluniau pensiwn cyflog terfynol i gynllun enillion cyfartalog gyrfa wedi’u hail-werthuso.
- Dylai oedran ymddeol y cynllun fod yr un fath ag oedran pensiwn ymddeol y wladwriaeth

- Dylid cael mecanwaith rhannu costau lle byddai aelodau yn rhannu'r costau cynyddol ac nid y cyflogwyr yn unig, gyda 9 band o gyfraniadau yn arwain at fwy o gyfraniadau gan aelodau.
- Budd-daliadau a gronnwyd ar 1/49fed o gyflog pensiynadwy ym mhob blwyddyn
- Gall aelodau ddewis 50/50 a thalu hanner cyfraniad ar gyfer hanner y buddion (croniad 1/98fed) am gyfnod diderfyn o amser.
- Gall aelodau ddewis cymryd taliad gwirfoddol o fuddion o 55 oed
- Diffiniad newydd o gyflog pensiynadwy i gynnwys oriau a weithiwyd gan gynnwys goramser nad ydyw'n gytundebol ac oriau ychwanegol ar gyfer gweithwyr rhan-amser.
- Cyfnod breinio o 2 flynedd yn hytrach na'r 3 mis blaenorol (h.y. gall aelodau ofyn am ad-daliad o fewn 2 flynedd)
- Dylai hawliau presennol aelodau presennol y cynllun gael eu diogelu

Mae'r pedwar mater penodol y mae angen i gyflogwyr ddatgan eu polisïau lleol fel a ganlyn: -

**a) Disgresiwn y cyflogwr i ddyfarnu pensiwn ychwanegol**

*Gall cyflogwr gynyddu buddion aelod drwy ddyfarnu pensiwn ychwanegol hyd at uchafswm o £6,500 y flwyddyn o Ebrill, 2014.*

Cyn y rheoliadau newydd, roedd cyflogwyr yn gallu dyfarnu £5000 y flwyddyn yn ychwanegol i aelod o'r cynllun. Ni wnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddefnyddio ei ddisgresiwn i ddyfarnu pensiwn ychwanegol o dan y rheoliadau blaenorol.

Byddai darparu dyfarniad pensiwn ychwanegol yn sylweddol ac unwaith y dyfarnwyd, ni ellid cymryd y pensiwn ymaith. Yr argymhelliad o dan y rheoliadau newydd:-

- *ni ddylai fod unrhyw newid i bolisi presennol y Cyngor ar hyn ac felly ni fydd y cyngor yn dyfarnu pensiwn ychwanegol*

**b) Ymddeoliad Hyblyg**

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi cyflogwr i roi caniatâd ar gyfer gweithiwr sy'n 55 oed neu drosodd i gael taliad o'u buddion pensiwn a pharhau i weithio i'r cyngor ar gyflog is.

Polisi cyfredol y Cyngor yw caniatáu ymddeoliad hyblyg ar yr amod bod caniatâd yn cael ei roi gan y Panel Ymddeoliad Hyblyg a bod gostyngiad parhaol yng nghyflog neu oriau'r gweithiwr sydd o leiaf 20% a'i fod yn ymddeol yn llawn o fewn 2 flynedd o ymddeol yn hyblyg. Cytunwyd ar hyn a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn ddiweddar.
Yr argymhelliad o dan y rheoliadau newydd yw:-

- *ni ddylai fod unrhyw newid i bolisi presennol y cyngor ar y ddarpariaeth hon*
- *y dylai'r polisi presennol gael ei ail-fabwysiadu o dan y cynllun newydd.*

**c) Talu Buddion Pensiwn yn gynnar**

O fis Ebrill 2014 gall aelod presennol o'r cynllun pensiwn sy'n 55 oed a throsodd ddewis derbyn taliad o'u buddion ymddeol yn syth, heb ganiatâd eu cyflogwyr, fodd bynnag, bydd y buddion pensiwn sy'n daladwy yn amodol ar ostyngiad actiwaraidd felly ni fydd unrhyw gost i'r cyngor.

Gall gweithwyr 55 oed a throsodd ofyn am daliad o'u buddion ymddeol yn syth yn amodol ar y cyflogwr yn cytuno i hepgor gostyngiadau actiwaraidd. O dan reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae gostyngiadau actiwaraidd yn cael eu hepgor yn awtomatig yn achos ymddeoliadau colli swydd neu effeithlonrwydd. Polisi presennol y Cyngor yw cyfeirio ceisiadau gan weithwyr i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Pennaeth Cyllid i benderfynu ar hyfywedd ariannol y cais, gyda'r gallu i hepgor unrhyw ostyngiad actiwaraidd.

Mewn achosion o aelodau gohiriedig (cyn-weithwyr), mae ceisiadau i gael buddion ymddeol yn cael eu hystyried fesul achos. Caniateir taliad pensiwn yn gynnar i aelodau gohiriedig pan nad oes cost i'r cyngor neu os yw'r amgylchiadau yn eithriadol a bod y meini prawf ar gyfer sail dosturiol yn cael ei ddangos.

Mae'r rheoliadau newydd yn caniatáu'r disgresiwn i'r cyflogwr gychwyn y "rheol 85 mlynedd", lle mae oedran aelod a hyd gwasanaeth yn gyfartal i 85 (cyn 65 oed) ar gyfer gweithwyr unigol cyn 60 oed yn achos Ymddeoliad Cynnar. Gall unrhyw gost o hyn gael ei dalu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan y cyflogwr.

Yr argymhelliad yw y dylai'r polisi gael ei fabwysiadu fel a ganlyn: -

- *dylai gweithwyr presennol sy'n ymddeol o 55 oed yn wirfoddol cyn yr oedran pensiwn arferol, sy'n gofyn am daliad o'u buddion pensiwn, gael eu buddion wedi'u gostwng yn actiwaraidd, felly nid oes unrhyw gost i'r cyngor.*
- *Mewn amgylchiadau eithriadol, ar gyfer aelodau gohiriedig, gellir hepgor y gostyngiad ar sail dosturiol, yn unol â'r meini prawf a'r gweithdrefnau cymeradwyo yng nghynllun terfynu cyflogaeth yn gynnar gan y cyngor.*
- *Bydd y Cyngor yn cymeradwyo gweithredu'r rheol 85 mlynedd ym mhob achos lle nad oes cost i'r cyflogwr, gan ganiatáu i'r aelod gymryd eu buddion yn gynnar gyda rhai gostyngiadau actiwaraidd.*
- *Ar gyfer gweithwyr presennol, gall y Cyngor ystyried hepgor gostyngiadau actiwaraidd yn rhannol neu'n llawn a bydd yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun gydag achos busnes llawn, sydd i'w gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.*

**d) Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (APC)**

*Mae'r rheoliadau newydd yn caniatáu i aelod wneud cais i dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol i gwmpasu cyfnod o absenoldeb di-dâl awdurdodedig o fewn 30 diwrnod, ond yn caniatáu i'r cyflogwr ymestyn y cyfnod hwnnw. Mae gofyn i'r cyflogwr ariannu dau draean o'r gost os gwneir pryniant o fewn 30 diwrnod.*

Gall aelod o'r gronfa bensiwn lleol wneud cais i wneud cyfraniadau pensiwn ychwanegol trwy gyfraniad rheolaidd neu gyfandaliad i gwmpasu cyfnod o absenoldeb di-dâl o ganlyniad i anghydfod masnach. Bydd cost hyn yn cael ei ddiwallu'n llawn gan yr aelod.

Gall aelod o'r gronfa bensiwn lleol wneud cais hefyd i wneud cyfraniadau pensiwn ychwanegol rheolaidd i roi hwb i'w pensiwn. Mae'r rheoliad hwn yn caniatáu i'r cyflogwr, os yw'n dymuno, i ariannu’r gost hon yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae'r awdurdod gweinyddu, os yw'n dymuno, yn gallu gofyn am adroddiad meddygol gan yr ymgeisydd i ddangos ei fod/bod mewn iechyd da.

Yr argymhelliad yw:-

- *O dan y rheoliadau mae'n rhaid i'r cyflogwr ariannu dau draean o'r gost pan fo'r aelod yn prynu’r cyfraniad pensiwn a gollwyd o fewn 30 diwrnod ar gyfer absenoldeb awdurdodedig. Ni fydd y cyflogwr yn ariannu unrhyw Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol eraill (APC)*

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r rheoliadau pensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr y cynllun wneud penderfyniad ar bob un o'r pum 'Disgresiwn Cyflogwr.' Rhaid cytuno a chyhoeddi’r Polisi erbyn 1 Gorffennaf, 2014.

Argymhellir bod y disgresiwn a nodir uchod ac yn y polisi sydd ynghlwm yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

**4. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'n ofyniad cyfreithiol i Gyngor Sir Ddinbych gytuno a chyhoeddi Polisi Disgresiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn unol â Rheoliadau Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

**5. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r disgresiynau uchod.

**6. Beth yw'r prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae AEC wedi'i gwblhau (copi ynghlwm yn Atodiad B) ac mae cam gweithredu parhaus wedi’i ei gydnabod i sicrhau bod y "Rheol 85 Mlynedd" yn cael ei chymhwyso'n deg ac yn gyson. Er mwyn sicrhau bod yr achos busnes hwn yn cael ei gwblhau, a dylai penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Cyllid fod yn gyson.

**7. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Nid oes unrhyw gostau penodol ychwanegol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r disgresiynau uchod.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r polisi wedi cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghori Lleol 4 Mehefin, 2014 gydag argymhelliad bod y polisi yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn. Bydd canlyniad y Cydbwyllgor Ymgynghori Lleol yn cael ei gyfleu ar lafar yn y cyfarfod.

**9. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Pŵer i wneud y penderfyniad yw a112 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# LOCAL GOVERNMENT PENSION SCHEME DISCRETIONS AND BANDING POLICY

**This document is subject to the policy statement included in the Employee Handbook**

**This document is subject to the standard policy statements**

**This policy has an appeals process applied to it**

**To view FAQs click here**

**To provide feedback on this document please click here**



| | |
|---|---|
| ***Date agreed & Implemented:*** | |
| ***Agreed by:*** | |
| ***Review date:*** | |
| ***Frequency:*** | |
| | |

| *Ver* | *Status* | *Date* | *Reason for Change* | *Authorised* |
|---|---|---|---|---|
| V1 | | | New Regulations 01/04/14 | Sophie Vaughan |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

1. What is this policy?

2. Contribution Banding Process

3. Awarding Additional Pension

4. Flexible Retirement

5. Early Payment of Pension Benefits at the Request of the Employee

6. Shared Additional Voluntary Contributions

7. 85 Year Rule

8. Transfer of Pension Rights

9. Definitions

# 1. What is this Policy?

**Discretions Policy**
The regulations of the Local Government Pension Scheme require every employer, under Regulation 60(1) of the LGPS (Administration) Regulations 2013 and Regulation 66(1) of the LGPS (Administration) Regulations 2007 to:

(i) issue a written policy statement on how it will exercise the various discretions provided by the scheme,
(ii) keep it under review and
(iii) revise it as necessary.

This document meets these requirements stating the regulation requirement and the organisation decision on these.

These discretions are subject to change, either in line with any change in regulations or by due consideration by the Authority. These provisions do not confer any contractual rights.

## 2. Contribution Banding Process

Denbighshire County Council will determine the employee's pensionable pay contribution banding on the 1st April each year in accordance with Regulation 9(3) of the LGPS Regulations 2013.

Each April contribution banding will be allocated as follows:

- Relief / Casual Employees band allocation will be based on their actual pensionable earnings from the previous financial year.
- Employees who have worked additional hours will be allocated by their current contractual salary and any additional hours worked in the previous financial year. This will be adjusted for new starters who do not have a whole years' service,
- Employees who participate in a salary sacrifice scheme that is not recognised by the Local Government Pension Scheme (e.g. Car Sacrifice Schemes) will have their contributions calculated on their reduced salary. Childcare Vouchers or Cycle to Work are not affected as they are currently recognised by Local Government Pension Scheme.

Details of the percentages and salary band ranges that decide the pension contributions that members pay can be found on the Pay & Reward Intranet Page.

## 3. LGPS Regulations 2013, Regulation 31 – Awarding Additional Pension

This regulation allows an employer to resolve to award a member additional pension of not more than £6500 a year payable from the same date as his / her pension is payable under any other provisions of the Regulations.

Additional pension may be awarded in addition to any increase of total membership.

**Statement of Policy**
Denbighshire County Council will not award additional pension.

**Review** - The Council may review its policy at any time.

# 4. LGPS Regulations 2013 Regulation 30(6) 30(8) – Flexible Retirement

A member of the pension scheme who has attained the age of 55 and with his/her employer's consent, reduces the hours he / she works, or the grade in which he/she is employed, may make a request in writing to the Pension Fund to receive all or part of his/her benefits under the Benefits Regulations. However, payment of the benefits cannot be made without the employer’s consent.

If the benefits are reduced in accordance with guidance issued by the Government Actuary, the employer may agree to waive, in whole or in part, any such reduction.

**Statement of Policy**
Any employee request for flexible retirement will be considered on a case by case basis on its own merits following full consideration of all financial and service delivery implications. The reduction should be a minimum of 20% of their current salary or hours and the employee must retire fully within 2 years of taking flexible retirement.

Denbighshire has the discretion to waive in full or in part any employee actuarial reductions. Where there is a capital cost to the employer it is unlikely that the request will be agreed unless these costs can be offset by financial savings. Each case will be decided based upon its individual merits.

This does not preclude younger employees under 55 years of age requesting flexible working but without the payment of their retirement benefits.

**Review** - The Council may review its policy at any time.

# 5. LGPS (Benefits, Membership and Contributions) Regulations 2013 Regulation 30(5) and 30(8) - Early Payment of Pension Benefits at the Request of the Employee

When a member of the pension scheme leaves employment before he/she is entitled to the immediate payment of retirement benefits, once he/she has attained the age of 55 he/ she may choose to receive payment of them immediately without consent from his/her employer, and their retirement benefits will be actuarially reduced.

If the benefits are reduced in accordance with guidance issued by the Government Actuary, the employer may agree to waive, in whole or in part, any such reduction on compassionate grounds.

The Council will consider former employees (deferred members before April 2014) who are over the age of 55 and who request access to their retirement benefits if there is no cost to the employer, or they can demonstrate they meet the criteria of compassionate grounds which is determined by the HR Manager

**Statement of Policy**
It is the policy of Denbighshire County Council to consider each case of early release of pension on its own merits:-

(i) If there are compelling, compassionate* reasons to do so.

(ii) If there is no cost to Denbighshire County Council and the benefits are actuarially reduced.

If Denbighshire County Council agrees to permit early release of deferred benefits for reasons other than compassionate grounds, any actuarial reduction will be applied to the person's accrued pension benefits to take account of the fact that the benefits are being paid early.

Denbighshire County Council has the discretion to waive any actuarial reduction for early payment on compassionate grounds

**Review** - The Council may review its policy at any time

# 6. LGPS Regulations 2013 Regulation 17 (1) – Shared Additional Voluntary Contributions

Where the member's employing authority contributes to the scheme, the additional voluntary contributions arrangement is to be known as a shared cost additional voluntary contributions arrangement and contributions to it as "SCAVCs".

**Statement of Policy**
Denbighshire County Council will not contribute towards a shared cost additional voluntary contributions scheme.

**Review** - The Council may review its policy at any time.

# 7. LGPS (Transitional Provisions, Savings and Amendment) Regulations 2014, Schedule 2 – 85 Year Rule

The “85 Year Rule”, where a member’s service and age equal 85, can be activated for individual members, prior to age 60 in the case of Early Retirement, the cost of which can be borne, in full or in part, by the employer.

**Statement of Policy**
Denbighshire County Council has the discretion to waive reductions in full, or in part, and will consider each case on its own merits with a full business case to be approved by the Head of Finance and Head of HR.

The Council will approve activating the 85 year rule in all cases where there is no cost to the employer, allowing the member to take their benefits early with some actuarial reduction

**Review** - The Council may review its policy at any time.



# 8. LGPS Regulations 2013 Regulation 100(6) – Transfer of Pension Rights

If a scheme member wishes to transfer a previous pension benefits into the LGPS he/she must opt to do so within 12 months of joining the LGPS or such longer period as the employer may allow.

**Statement of Policy**
Denbighshire County Council will not consider extending the time limit for a transfer in of previous pension rights more than twelve months of joining.

# 9. Definitions

*Definition of compelling, compassionate reasons:

(i) The member can clearly demonstrate that they have a dependent, who is in need of the member’s constant supervision due to a long term illness and as a result the member is suffering from severe financial hardship OR

(ii) There is another substantial reason (not relating to caring for an ill dependant) where the member can demonstrate that they are facing very severe, on-going financial hardship and will be doing so on a long term basis.

In exceptional circumstances, and only with the prior approval of Denbighshire County Council, Denbighshire County Council may vary the terms of this policy on an individual basis, and consider each case on its merits. The list is subject to statute, regulations and Denbighshire County Council policy. It may be varied in the future as necessary. Each discretion will be dealt with independently.

# LGPS Discretions Policy
# May, 2014

## Equality Impact Assessment

# LGPS Discretions Policy

**Contact:** Sophie Vaughan, HR

**Updated:** 19/05/2014

## 1. What type of proposal / decision is being assessed?

| |
|---|
| A new or revised policy |

## 2. What is the purpose of this proposal / decision, and what change (to staff or the community) will occur as a result of its implementation?

| |
|---|
| The purpose of this revised policy is to bring the policy in line with the new LGPS Pension Regulations. This will provide employees and employers with an agreed policy which outlines the discretions that the employer has in five key areas.<br>1. Whether to offer shared cost Additional Pension Costs with an employee<br>2. Whether to offer Flexible Retirement - which has already been agreed<br>3. Whether to allow an authority to activate the rule of 85 for employees retiring between 55 and 60<br>4. Whether to offer additional pension to an employee up to a maximum of £6,500 per annum.<br>5. Allowing early release of pensions on compassionate grounds, or when there is no cost to the council.<br>The Council's position on 1,2,4 & 5 have not altered, although the option to activate the "85 Year Rule" is new. The recommendation is that each case will be considered on it's own merits, and will require a business case to be confirmed by the Head of Finance and Head of HR, similar to the process of the Early Termination of Employment Policy. |

## 3. Does this proposal / decision require an equality impact assessment? If no, please explain why.

***Please note:*** *if the proposal will have an impact on people (staff or the community) then an equality impact assessment* ***must*** *be undertaken*

| | |
|---|---|
| Yes | <If no, briefly summarise the reasons for this decision here, and skip ahead to the declaration at the end> |

## 4. Please provide a summary of the steps taken, and the information used, to carry out this assessment, including any engagement undertaken

*(Please refer to section 1 in the toolkit for guidance)*

| |
|---|
| The policy has been considered to see if there was an impact on each of the protected characteristics. Different scenarios were considered, and then considered in line with the protected characteristics. Many of the discretions Denbighshire County Council has opted not to adopt. The Flexible Retirement Policy has it's own EIA. The only one remaining is the Rule of 85. |

**5. Will this proposal / decision have a positive impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**
*(Please refer to section 1 in the toolkit for a description of the protected characteristics)*

| |
|---|
| n/a |

**6. Will this proposal / decision have a disproportionate negative impact on any of the protected characteristics (age; disability; gender-reassignment; marriage and civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation)?**

| |
|---|
| n/a |

**7. Has the proposal / decision been amended to eliminate or reduce any potential disproportionate negative impact? If no, please explain why.**

| | |
|---|---|
| Yes | The proposal is to ensure that the discretions policy is in line with the new legislation |

**8. Have you identified any further actions to address and / or monitor any potential negative impact(s)?**

| | |
|---|---|
| Yes | <If yes please complete the table below. If no, please explain here> |

| Action(s) | Owner | By when? |
|---|---|---|
| Ensure Business Cases are submitted and the decision makers use fair criteria | Sophie Vaughan | Ongoing |
| <Please describe> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Please describe> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |
| <Unrestrict editing to insert additional rows> | <Enter Name> | <DD.MM.YY> |

---------------------------------------------------------------------------------------------------

## 9. Declaration

Every reasonable effort has been made to eliminate or reduce any potential disproportionate impact on people sharing protected characteristics. The actual impact of the proposal / decision will be reviewed at the appropriate stage.

| | |
|---|---|
| **Review Date:** | January, 2015 |

| **Name of Lead Officer for Equality Impact Assessment** | **Date** |
|---|---|
| Sophie Vaughan | 19/05/2014 |

**Please note you will be required to publish the outcome of the equality impact assessment if you identify a substantial likely impact.**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mehefin 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price** |
| **Teitl:** | **Penodiadau i Bwyllgorau a Chydbwysedd Gwleidyddol** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae’r adroddiad hwn yn manylu ar newidiadau i aelodaeth pwyllgorau’r Cyngor a phenodiadau a wneir gan y Cyngor i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Y Cyngor llawn sydd â’r dasg o benodi cadeirydd ac aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd manylu ar sefyllfa pwyllgorau eraill yn hysbysu aelodau am sefyllfa eu pwyllgorau ac am unrhyw gamau sydd angen eu cymryd i gynnal cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau hyn.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

Dylai’r Cyngor nodi'r materion a godwyd a phenodi’r cadeirydd a deg aelod arall i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2014/2015.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

<u>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</u>

4.1 Yn y Cyfarfod Blynyddol ar 15 Mai, penderfynodd y Cyngor mai aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd a oedd yn ofynnol dan y Mesur Llywodraeth Leol fyddai 11 o gynghorwyr <u>na</u> fyddai'n cynnwys aelod o’r Cabinet.

4.2 Mae Adran 11 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor benodi pwyllgor i adolygu a yw darpariaeth yr awdurdod yn ddigonol o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â darpariaeth o’r fath.

4.3 Rhaid i aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau’n cael eu cyfethol. Dan y Mesur, ni all mwy nac un aelod o’r Cabinet eistedd ar y Pwyllgor (ac ni all hyn gynnwys yr Arweinydd), ond ym mis Mai 2012, penderfynodd y Cyngor na fyddai’r aelodaeth yn cynnwys unrhyw aelodau o'r Cabinet.

4.4 Rhaid cael cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor a rhaid i'r Cyngor benodi ei gadeirydd na all fod yn aelod o un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Yn Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu y bydd y cadeirydd yn aelod o'r grŵp Llafur. Y grŵp Llafur sydd wedi enwebu'r cadeirydd presennol, y Cynghorydd Barry Mellor.

4.5 Aelodau presennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw'r Cynghorwyr Bill Cowie, Stuart Davies, Martyn Holland, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry ac Arwel Roberts. Mae'r Cynghorydd Butterfield wedi cymryd lle'r Cynghorydd Gareth Sandilands ac mae sedd wag Plaid Cymru (Gadawodd y Cynghorydd Kensler y Pwyllgor ar ôl cael ei phenodi'n Is-gadeirydd y Cyngor fis diwethaf) yn cael ei llenwi gan y Cynghorydd Cefyn Williams.

Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio

4.6 Mae Mesur 2011 hefyd yn rheoli'r broses o benodi cadeiryddion y Pwyllgor Craffu. Yn Sir Ddinbych mae hyn yn golygu fod dwy o'r tair swydd cadeirydd wedi cael eu dyrannu i'r grŵp Llafur a bod y drydedd swydd wedi'i dyrannu i'r tri grŵp gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Nid yw'r grwpiau penodi wedi hysbysu'r Gwasanaethau Democrataidd am unrhyw newidiadau i drefniadau cadeirio 2013/14.

Seddi ar Bwyllgorau

4.7 Mae Atodiad 1 yn rhoi golwg fesul pwyllgor ar y gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol a seddi gwag.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae dosbarthu seddi ar bwyllgorau mewn modd teg yn hanfodol i aelodau etholedig a gwaith democrataidd y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn effeithio ar wasanaethau eraill. Gweler adran 8 i gael datganiad ar gostau.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid yw'n ofynnol gan nad yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno polisïau, gweithdrefnau na chamau gweithredu newydd a fyddai'n cael effaith ar faterion cydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhelir ymgynghori rheolaidd gydag arweinwyr grwpiau ar faterion yn ymwneud ag aelodaeth pwyllgorau sy'n effeithio ar eu grwpiau. Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn adroddiadau ar gydbwysedd gwleidyddol o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes costau uniongyrchol yn deillio o’r adroddiad hwn. Cytunwyd eisoes ar y gydnabyddiaeth ariannol i aelodau am gyflawni swyddogaethau penodol e.e. eistedd ar y Cabinet neu gadeirio pwyllgor. Nid yw swydd cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn lwfans cadeirio.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Sefyllfa Cydbwysedd Gwleidyddol Mai 2014**

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r sefyllfa ar gyfer pob un o'r pwyllgorau. Mae'r drydedd golofn dan y pennawd *Cydbwysedd Gwleidyddol* yn dangos cyfanswm y seddi y caiff grŵp eu llenwi ymhob pwyllgor.

Gall newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau ddigwydd ar unrhyw adeg ac anogir Grwpiau i sicrhau bod gan bob pwyllgor garfan lawn o aelodau trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir adolygiad cyffredinol o gydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau yn flynyddol i gydbwyso pwyllgorau ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig newydd ym mis Mai. Eleni, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 13 Mai 2014.

| Cabinet | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 0 | 3 |
| Annibynnol | 4 | 2 |
| Ceidwadwyr | 2 | 1 neu 2* |
| Plaid Cymru | 2 | 1 neu 2* |
| Sylwadau: Mae’r gofynion o ran y cydbwysedd gwleidyddol wedi eu bodloni ar gyfer y grwpiau sy'n rhan o’r Cabinet.<br>Pan fo grŵp gwleidyddol sydd â 5 neu fwy o aelodau yn gwrthod cymryd eu seddau ar y Cabinet, gall yr Arweinydd benodi cynghorwyr i lenwi'r seddi gweigion (nid yw’r rheolau o ran cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i’r seddi gweigion hynny). Nid oes angen gwneud camau pellach.<br><br>*Gydag 8 aelod yr un, mae gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yr un cydbwysedd gwleidyddol felly, o ran cydbwysedd gwleidyddol, gall y ddwy blaid gymryd ail sedd ar y pwyllgor. | | |

| Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 2 | 2 |
| Annibynnol | 2 | 2 |
| Ceidwadwyr | 1 | 1 |
| Plaid Cymru | 1 | 1 |
| Sylwadau: Mae’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn wleidyddol gytbwys ac yn cynnwys 6 cynghorydd (bydd un ohonynt yn Is-Gadeirydd y Cyngor). Roedd y Cynghorydd Gwyneth Kensler, Is-Gadeirydd newydd y Cyngor, eisoes yn aelod o'r pwyllgor hwn.<br><br>**Camau Gweithredu: Dim.** | | |

| Pwyllgor Archwilio Cymunedau | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 4 | 4 |
| Annibynnol | 3 | 3 |
| Ceidwadwyr | 2 | 2 |
| Plaid Cymru | 2 | 2 |
| Sylwadau: Mae'r pwyllgor hwn yn wleidyddol gytbwys.<br><br>**Camau Gweithredu: Dim.** | | |

| Pwyllgor Archwilio Partneriaethau | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 4 | 4 |
| Annibynnol | 3 | 3 |
| Ceidwadwyr | 2 | 2 |
| Plaid Cymru | 2 | 2 |
| Sylwadau: Mae'r pwyllgor hwn yn wleidyddol gytbwys. Ar ddechrau blwyddyn ddinesig 2014/15 ymunodd y Cynghorydd Ray Bartley a Richard Davies (Annibynnol) â'r pwyllgor ar ôl i'r Cynghorwyr Bill Cowie a Joe Welch adael.<br><br>**Camau Gweithredu: Dim.** | | |

| Pwyllgor Archwilio Perfformiad | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 4 | 4 |
| Annibynnol | 1 | 3 |
| Ceidwadwyr | 2 | 2 |
| Plaid Cymru | 2 | 2 |
| Sylwadau: Ar hyn o bryd (Mai 2014) mae 2 sedd wag ar gyfer aelod Annibynnol.<br><br>**Camau Gweithredu: Y grŵp Annibynnol i enwebu 2 aelod.** | | |

| Pwyllgor Cynllunio | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 11 | 12 |
| Annibynnol | 8 | 8 |
| Ceidwadwyr | 5 | 5 |
| Plaid Cymru | 5 | 5 |
| Sylwadau: Mae gan y grŵp Llafur un sedd wag.<br><br>**Camau Gweithredu: Y Grŵp Llafur i benodi 1 aelod.** | | |

| Pwyllgor Trwyddedu | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 4 | 4 |
| Annibynnol | 3 | 3 |
| Ceidwadwyr | 2 | 2 |
| Plaid Cymru | 2 | 2 |
| Sylwadau: Mae'r pwyllgor hwn yn wleidyddol gytbwys.<br><br>**Camau Gweithredu: Dim.** | | |

| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 4 | 4 |
| Annibynnol | 3 | 3 |
| Ceidwadwyr | 2 | 2 |
| Plaid Cymru | 2 | 2 |
| Sylwadau: Mae Cadeirydd ac aelodau o'r pwyllgor hwn yn cael eu penodi gan y Cyngor ar sail dyraniad gwleidyddol cytbwys. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mehefin 2014 i dderbyn penderfyniad.<br><br>**Camau Gweithredu: Y Cyngor i gadarnhau aelodaeth ym mis Mehefin 2014.** | | |

| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 2 | 2 |
| Annibynnol | 2 | 2 |
| Ceidwadwyr | 1 | 1 |
| Plaid Cymru | 1 | 1 |
| Sylwadau: Mae'r pwyllgor hwn yn wleidyddol gytbwys.<br><br>**Camau Gweithredu: Dim.** | | |

| Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 2 | 3 |
| Annibynnol | 2 | 2 |
| Ceidwadwyr | 2 | 1 neu 2* |
| Plaid Cymru | 2 | 1 neu 2* |
| Sylwadau: Ar hyn o bryd (Mai 2014) mae’r grŵp Llafur yn 1 aelod yn o’u hawl i gael 3 aelod ar y pwyllgor. Mae gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru aelod ychwanegol - gweler y nodyn*.<br><br>**Camau Gweithredu: (i) Llafur i benodi 1 aelod ychwanegol (ii) Yn dilyn hyn, y Ceidwadwyr neu Blaid Cymru i dynnu 1 aelod o'r pwyllgor.**<br><br>*Gydag 8 aelod yr un, mae gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yr un cydbwysedd gwleidyddol felly gall un o’r pleidiau gymryd ail sedd ar y pwyllgor. | | |

| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 2 | 3 |
| Annibynnol | 1 | 2 |
| Ceidwadwyr | 2 | 1 neu 2* |
| Plaid Cymru | 1 | 1 neu 2* |

Sylwadau: Mae gan y grŵp Llafur a'r grŵp Annibynnol hawl i gael 1 sedd ychwanegol.

**Camau Gweithredu: Y grwpiau Llafur ac Annibynnol i benodi 1 aelod yr un.**

*Gydag 8 aelod yr un, mae gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yr un cydbwysedd gwleidyddol felly gall un o’r pleidiau gymryd ail sedd ar y pwyllgor.

| Pwyllgor Apeliadau a Chwynion | Aelodaeth Bresennol | Cydbwysedd Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Llafur | 4 | 4 |
| Annibynnol | 3 | 3 |
| Ceidwadwyr | 2 | 2 |
| Plaid Cymru | 2 | 2 |

Sylwadau: Mae'r ‘pwyllgor' hwn yn cynnwys nifer o aelodau ar gyfer delio ag apeliadau a chwynion. Mae ganddo gydbwysedd gwleidyddol ar hyn o bryd.

**Camau Gweithredu: Dim.**

Cynllun Gwaith i’r Dyfodol y Cyngor Sir

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad/teitl)** | | **Pwrpas yr adroddiad** | **Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)** | **Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Briffio’r Cyngor - 23 Mehefin 2014** | 1 | Hyfforddiant Aelodau | I ystyried materion hyfforddi aelodau | Amh | Y Cynghorydd Barbara Smith / Eleri Woolford |
| | 3 | Diwygiad Lles | | | Paul McGrady |
| | 4 | Strategaeth Tai Lleol | Ystyried y STLl cyn mynd i'r cyngor llawn ym mis Medi | | Y Cyng. Hugh Irving / Peter McHugh / Sue Lewis |
| | | | | | |
| **8 Gorffennaf 2014** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Briffio’r Cyngor 9 Gorffennaf 2014** | | GWEITHDY CYLLIDEB | | | |
| **Briffio’r Cyngor 14 Gorffennaf 2014** | | GWEITHDY CYLLIDEB | | | |
| | | | | | |
| **Briffio’r Cyngor 30 Gorffennaf 2014** | | GWEITHDY CYLLIDEB (2.00 p.m.) | | | |
| | | | | | |

Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor Sir

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad/teitl)** | | **Pwrpas yr adroddiad** | **Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)** | **Awdur - Aelod Arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| **9 Medi 2014** | 1 | Cynllun Cyfalaf | I drafod alldro'r blynyddoedd blaenorol ac i ddiweddaru ynglŷn â 5 mis y flwyddyn bresennol | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady / Richard Weigh |
| | 2 | Strategaeth Tai Lleol | I gytuno ar y Strategaeth Dai Lleol | Oes | Y Cyng. Hugh Irving / Peter McHugh / Sue Lewis |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor - 22 Medi 2014** | 1 | Moderneiddio Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwella Lles Pobl a Grwpiau Diamddiffyn | I ystyried briffio | Amh | Y Cyng. Bobby Feeley / Steph O'Donnell |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 13 Hydref 2014** | | GWEITHDY CYLLIDEB | | | |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 20 Hydref 2014** | | GWEITHDY CYLLIDEB | | | |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 12 Rhagfyr 2014** | | GWEITHDY CYLLIDEB | | | |
| | | | | | |
| **Chwefror 2015** | 1 | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/2016 | Cymeradwyo Datganiad Strategaeth RhT 2015/2016 | Oes | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady / Richard Weigh |

*Nodyn i swyddogion – Dyddiad cau Adroddiadau'r Cyngor Llawn*

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *Mehefin* | ***27 Mai*** | *Gorffennaf* | ***24 Mehefin*** | *Medi* | ***26 Awst*** |

Diweddarwyd 03/06/2014 - SLW

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag